

Cynllun Corfforaethol 2013-17

Adolygwyd 2014-15



Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Gweithio gyda'n gilydd i wella bywydau

RHAGAIR

Fel cynghorau eraill yn y DU, rydym yn wynebu heriau digynsail wrth daro cydbwysedd rhwng y galw am wasanaethau a'r ffaith bod llai o gyllid ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Rydym hefyd yn wynebu ansicrwydd ynghylch dyfodol y sefydliad yng ngoleuni Adroddiad Comisiwn Williams ar lywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus. Er gwaethaf y ffactorau hyn rydym yn dal i fod ag ymrwymiad di-ildio i wella deilliannau i'n dinasyddion yn y fwrdeistref sirol heddiw ac yn y dyfodol.

Mae'r Cynllun Corfforaethol adolygedig hwn yn cadarnhau ein gweledigaeth ar gyfer gweithio gyda'n gilydd i wella bywydau a'n blaenoriaethau gwella i wireddu'r weledigaeth hon dros y tair blynedd nesaf. Bydd y Cynllun hwn yn rhoi arweiniad ar gyfer y penderfyniadau y byddwn yn eu gwneud ynghylch darparu gwasanaethau a dyrannu adnoddau. Bydd ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn ategu gwaith i gyflawni ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau gwella ac mae ar gael ar ein gwefan, www.bridgend.org.uk.

O ystyried yr heriau yr ydym ni a'n cymunedau'n eu hwynebu, bydd angen i ni newid y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Byddwn yn ceisio ffyrdd arloesol neu wahanol o gwrdd ag anghenion lleol a chyflenwi gwasanaethau er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'n dinasyddion gyda'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. Gallai hyn gynnwys ildio rheolaeth ar adnoddau i'n dinasyddion a chymunedau i roi iddynt y cyfle i gyflenwi gwasanaethau a fydd yn cwrdd â'u hanghenion amrywiol yn y ffordd orau.

Byddwn yn ymgysylltu â dinasyddion ac yn ymateb iddynt i atal a lleihau'r galw – er enghraifft trwy ymyrryd yn gynnar a darparu ymyriadau wedi'u targedu i roi cymorth i'r bobl ifanc a'r teuluoedd ac arnynt fwyaf angen cymorth a thrwy fwy o gymorth i fyw'n annibynnol ar gyfer oedolion. Byddwn hefyd yn archwilio sut y gallwn roi cymorth i ddinasyddion, teuluoedd a chymunedau gymryd mwy o gyfrifoldeb a rheolaeth er mwyn gwella eu hiechyd a'u lles a helpu i leihau'r galw ar wasanaethau'r Cyngor.

Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'n dinasyddion a'n cymunedau yn ogystal â phartneriaid lleol a chenedlaethol eraill ym mhob sector wrth gyflawni'r Cynllun hwn.

Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'n dinasyddion a'n cymunedau yn ogystal i phartneriaid lleol a chenedlaethol eraill ym mhob sector i gyflawni'r Cynllun hwn.



Y Cynghorydd Mel Nott OBE
Arweinydd y Cyngor



Darren Mepham
Prif Weithredwr

Cynnwys

RHAGAIR	2
CYFLWYNIAD	4
Y deilliannau allweddol yr ydym yn dymuno'u cyflawni.....	4
Ein Blaenoriaethau Gwella ar gyfer 2013-17	5
Ffactorau sydd wedi dylanwadu ar y cynllun hwn	6
Sut y byddwn yn cyflawni'r cynllun hwn.....	10
Sut y byddwn yn mesur ac yn monitro llwyddiant	13
Eich sylwadau chi.....	13
BLAENORIAETH GWELLA UN – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I DDATBLYGU’R ECONOMI LEOL.....	14
BLAENORIAETH GWELLA DAU – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I GODI UCHELGEISIAU A CHYNYDDU CYFLAWNIAD ADDYSGOL	18
BLAENORIAETH GWELLA TRI – GWEITHIO GYDA PHLANT A THEULUOEDD I FYND I’R AFAEL Â PHROBLEMAU’N GYNNAR	23
BLAENORIAETH GWELLA PEDWAR – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I HELPU POBL AGORED I NIWED I BARHAU I FOD YN ANNIBYNNOL.....	27
BLAENORIAETH GWELLA PUMP – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I FYND I’R AFAEL Â MATERION IECHYD AC ANNOG POBL I FABWYSIADU FFYRDD IACH O FYW	31
BLAENORIAETH GWELLA CHWECH – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I WNEUD Y DEFNYDD GORAU O’N HADNODDAU.....	35
Atodiad 1: Dangosyddion Llwyddiant	39
GEIRFA	48

CYFLWYNIAD

Ein gweledigaeth yw gweithio gyda'n gilydd i wella bywydau ledled y Fwrdeistref Sirol.

Mae'r Cynllun Corfforaethol hwn yn cadarnhau ein chwe blaenoriaeth gwella ar gyfer y tair blynedd nesaf i wireddu'r weledigaeth hon. Bydd ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, a ddatblygwyd ochr yn ochr â'r Cynllun Corfforaethol, a'r Rhaglen Newid yn sicrhau bod y ffordd yr ydym yn gweithio ac yn gwario yn addas ar gyfer cyflawni'r deilliannau allweddol i'n dinasyddion.

Y deilliannau allweddol yr ydym yn dymuno'u cyflawni

Erbyn 2017 rydym yn ceisio sicrhau'r canlynol:

- **Mae pobl ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn iachach.**
Byddai hyn yn golygu bod pobl a'u teuluoedd yn cael eu grymuso ac yn cael gwybodaeth i fyw bywydau iach ac annibynnol a bod ein cymunedau'n gryfach, yn gydlynol ac yn gynaliadwy, gyda mynediad priodol at wasanaethau ar gyfer pawb.
- **Mae pobl ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael budd o economi gryfach a mwy ffyniannus.**
Byddai hyn yn golygu bod pobl yn fwyfwy gweithgar yn yr economi leol ac yn cefnogi busnesau lleol a bod ein cymunedau'n gynaliadwy gyda'r isadeiledd priodol i ategu twf busnes a chanolau trefi ffyniannus.
- **Mae pobl ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael eu cynnwys a'u grymuso i gyrraedd eu llawn botensial.**
Byddai hyn yn golygu bod pobl yn ddinasyddion gweithgar yn ein cymdeithas, wedi'u harfogi â'r sgiliau, y cymwysterau a'r hyder y mae eu hangen i fyw a gweithio a bod cyfle cyfartal, fel bod pobl yn cael cymorth ac yn cael eu gwerthfawrogi'r un faint â'i gilydd.
- **Mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn lle gwych i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.**
Byddai hyn yn golygu bod pobl yn ymfalchïo yn y fwrdeistref sirol; eu cymunedau, y dreftadaeth a'r amgylchedd naturiol, a bod ein cymunedau'n lân ac yn ddiogel ac yn cynnig ystod dda o weithgareddau hamdden, twristiaeth a diwylliannol.

Ein Blaenoriaethau Gwella ar gyfer 2013-17

Rydym wedi cadw'r chwe blaenoriaeth gwella a nodir yng Nghynllun Corfforaethol 2013-17. Dyma'r pethau sydd fwyaf o bwys i ddinasyddion ar sail yr hyn y maent wedi'i ddweud wrthym ni:

Gweithio gyda'n gilydd
i ddatblygu'r economi
leol

Gweithio gyda'n gilydd
i godi uchelgeisiau a
chynyddu cyflawniad
addysgol

Gweithio gyda phlant a
theuluoedd i fynd i'r
afael â phroblemau'n
gynnar

Gweithio gyda'n gilydd
i helpu pobl agored i
niwed i barhau i fod yn
annibynnol

Gweithio gyda'n gilydd i
fynd i'r afael â materion
iechyd ac annog pobl i
fabwysiadu ffyrdd iach o
fyw

Gweithio gyda'n gilydd
i wneud y defnydd
gorau o'n hadnoddau

Y chwe blaenoriaeth yma yw ein hamcanion gwella dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae prif ran y Cynllun Corfforaethol hwn yn egluro pam fod pob un o'r blaenoriaethau hyn yn bwysig, yr hyn y byddwn yn ei wneud i'w cyflawni, a sut y bydd llwyddiant yn edrych.

Ffactorau sydd wedi dylanwadu ar y cynllun hwn

Mae'r heriau canlynol wedi dylanwadu ar ein dewis o flaenoriaethau a'r ffordd y byddwn yn gweithio i'w cyflawni.

Y duedd economaidd

Mae'r argyfwng ariannol diweddar wedi cael effaith barhaus ar yr economi leol a chyfleoedd cyflogaeth mewn ardaloedd ledled y fwrdeistref sirol. Rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2013 gostyngodd y gyfradd cyflogaeth yn y fwrdeistref sirol ar gyfer y grŵp oedran 16-64 (o 71.7% i 68.9%) a'r grŵp oedran 16-24 (o 55.8% i 47.1%), er bod ein cyfraddau ni'n dal i fod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Mae data dros dro'n dynodi bod ein GVA (gwerth ychwanegol crynswth, mesur o faint yr economi) wedi cynyddu 3.3% yn 2012 i £14,964, ac mae'r ffigwr diweddaraf sydd ar gael ar gyfer GDHI (incwm aelwydydd crynswth i'w wario, mesur o incwm gwario) hefyd yn dangos cynnydd i £14,007. Fodd bynnag, mae'r ddau ffigwr yn dal i fod islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Rhwng 2011-12 a 2012-13 bu gostyngiad yn y ganran o'r plant dan 16 sy'n byw mewn aelwydydd heb unrhyw un mewn cyflogaeth, o 20.4% i 17.5%, a'r ganran o'r plant sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel (60% neu lai o'r canolrif), o 22.7% i 21%. Mae'r ddau ganlyniad yma'n well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Gostyngodd y ganran o'r bobl yn y fwrdeistref sirol sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith hefyd i 4.0% yn 2013, ond mae'n dal i fod yn uwch na'r ganran o 2.0% yn 2008, cyn yr argyfwng ariannol byd-eang.

Newidiadau yn y boblogaeth

Mae ein poblogaeth yn newid yn barhaus. Ar hyn o bryd mae ychydig dros 139,700 o ddinasyddion a rhagwelir y bydd y ffigwr hwn yn cyrraedd 151,023 erbyn 2036. Mae ymfudiad net yn debygol o fod oddeutu 400 o bobl erbyn y dyddiad yma ac mae disgwyl i'r bobl hyn ddod o rannau eraill o'r DU.

Mae cyfradd twf y boblogaeth yn y fwrdeistref sirol yn arafu; mae amcanestyniadau'n dangos gostyngiad yn y gyfradd genedigaethau dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r un amcanestyniadau'n dangos cynnydd mewn disgwyliad oes ar gyfer ein dinasyddion – o'r cyfartaledd o 79.7 mlynedd yn 2011 i 82.9 mlynedd erbyn 2036. Mae hyn yn golygu bod yr ardal yn debygol o weld cynnydd yn nghyfran y bobl hŷn, tra bo maint y boblogaeth o oedran gweithio'n lleihau. Bydd angen i'r Cyngor a phartneriaid yn y sector iechyd a'r trydydd sector ddod o hyd i ffyrdd arloesol a hyblyg o ddarparu gwasanaethau yng ngoleuni'r galw cynyddol hwn i sicrhau bod anghenion poblogaeth sy'n tyfu ac yn heneiddio'n dal i gael eu diwallu.

Heriau o ran iechyd

Gwyddom fod rhai agweddau ar ffyrdd ein dinasyddion o fyw yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd a lles hirdymor. Mae ein cyfraddau goryfed mewn pyliau wedi gostwng, ond maent yn dal i fod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Cynyddodd y ganran o'r oedolion sy'n ysmegu yn 2012 i 22.8% (o 22.5% yn 2011). Bu llai o ymweliadau â'n cyfleusterau chwaraeon a hamdden i gyfranogi mewn gweithgarwch corfforol, i lawr o 9,520 am bob 1,000 yn y boblogaeth yn 2011-12 i 8,914 yn 2012-13, tra bo'r ganran o'r boblogaeth yr ystyrir eu bod dros eu pwysau neu'n ordew'n dal i fod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ar 59%.

Mae nifer o ddangosyddion yn ymwneud â'r fwrdeistref sirol yn ei chyfanrwydd, ond pan ydym yn archwilio ar lefel ddaearyddol is gallwn weld gwahaniaeth sylweddol ymhlith ein wardiau. Os na fyddwn yn gweithredu yna bydd materion ac anghydraddoldebau iechyd, a'u heffeithiau ehangach, yn parhau a gall eu heffeithiau niweidiol ddod yn fwy andwyol i unigolion, teuluoedd a chymunedau.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i helpu dinasyddion i fynd i'r afael â'r her iechyd trwy gynlluniau a rhaglenni amrywiol. Byddwn hefyd yn rhoi cymorth ychwanegol i'r rheiny sydd fwyaf mewn angen. Fodd bynnag, er mwyn i ni lwyddo yn yr her hon, mae'n rhaid i unigolion gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain, ac ymrwymo i fyw bywydau iachach.

Cyflawniad addysgol

Mae angen i ni wella lefelau cyrhaeddiad disgyblion ledled y fwrdeistref sirol. Mae addysg dda'n hollbwysig i roi mynediad i'n plant a phobl ifanc at y cyfleoedd gorau ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae'r safonau sy'n cael eu cyrraedd gan ein disgyblion yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac mae'r bwloch yn mynd yn fwy. Mae lefel uchel o bresenoldeb yn yr ysgol yn hanfodol er mwyn i blant ffynnu'n academaidd, felly mae arnom angen i rieni a gwarcheidwaid sicrhau bod eu plant yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd. Mae cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion wedi codi'n flynyddol i 93.7% ar gyfer ysgolion cynradd a 92% mewn ysgolion uwchradd ond maent yn dal i fod islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Roedd y lefelau cyrhaeddiad a gyflawnwyd gan ddisgyblion ar gyfer blwyddyn academaidd 2011-12 yn dangos gwelliannau o'u cymharu â'r ffigyrau blaenorol, er enghraifft fe wellodd y ganran o'r plant sy'n cyflawni'r lefelau rhifedd a llythrennedd disgwylidig erbyn eu bod yn 11 oed i 80.6%, o 77.1% ar gyfer blwyddyn academaidd 2010-11, ac fe gododd y ganran o'r disgyblion sy'n ennill pum gradd A*-C mewn arholiadau TGAU (gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf/Saesneg a mathemateg) o 44.6% i 50.7% dros yr un cyfnod, ond mae angen i'r rhain fynd ymhellach. Mae angen i rieni a gwarcheidwaid chwarae rhan lawn yng ngweithgarwch dysgu eu plant er mwyn i ni weld gwelliannau gwirioneddol mewn cyflawniad addysgol.

Blaenoriaethau cenedlaethol a dyletswyddau statudol

Y Rhaglen Lywodraethu yw polisi trosfwaol Llywodraeth Cymru. Mae'n nodi blaenoriaethau cenedlaethol a chynigion ar gyfer gweithredu y bydd gan yr holl awdurdodau lleol rôl bwysig o ran eu cyflawni.

Mae gennym ddyletswydd statudol dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i wneud yn siŵr, ymysg pethau eraill, bod ein blaenoriaethau'n sicrhau gwelliannau yn ansawdd ac argaeledd gwasanaethau, mewn effeithlonrwydd a thegwch, ac mewn ffyrdd sy'n cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy yn yr ardal.

Yr hyn sy'n achosi pryder arbennig yw Deddf Diwygio Lles Llywodraeth y DU y dechreuwyd ei gweithredu yn 2013. Nid yw'n hysbys eto sut y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar ein dinasyddion a'n cymunedau, a beth fydd yr effaith ddilynol ar wasanaethau. Bydd y sefyllfa hon yn cael ei monitro'n fanwl.

Gwasanaethau presennol

Mae'r Cyngor yn darparu neu'n comisiynu ystod eang o wasanaethau. Mae rhai o'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu'n statudol, sy'n golygu bod gennym ddyletswydd i'w darparu, tra bo rhai gwasanaethau'n cael eu darparu am eu bod yn cyfrannu at deilliannau cyffredinol yr ydym yn dymuno'u cyflawni i'n dinasyddion. Mae gwybodaeth am y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu ar gael ar ein gwefan, www.bridgend.gov.uk. Dim ond ar y meysydd blaenoriaeth y mae angen i ni weld y gwelliant mwyaf ynddynt y mae'r Cynllun hwn yn canolbwyntio.

Gyda'r heriau sy'n gysylltiedig â galw cynyddol, disgwyliadau uwch ac adnoddau cyfyngedig, bydd angen i ni fod yn agored i newid y ffordd yr ydym yn gweithio a throi ein golygon at hybu'r arfer o gomisiynu gwasanaethau. Bydd angen i ni hefyd adolygu'r gwasanaethau presennol a chael gwared ar y rhai nad ydynt yn hanfodol, fel a awgrymwyd gan ein dinasyddion yn ystod y broses o ymgynghori ynghylch y gyllideb. Mae gan ein trigolion, cymunedau a phartneriaid lleol oll rôl allweddol i'w chyflawni o ran llunio a helpu i ddarparu'r gwasanaethau gorau posib.

Ategir ein gweithgareddau i gyd gan ein gwasanaethau corfforaethol, sy'n cynnwys Cyllid, Adnoddau Dynol, TGCh, Eiddo, Gwasanaethau Cwsmeriaid a Gwasanaethau Cyfreithiol.

Cydraddoldebau, datblygu cynaliadwy a'r iaith Gymraeg

Cydraddoldeb a chynaliadwyedd yw'r egwyddorion arweiniol sy'n tanategu popeth a wnawn. Rydym yn mynd ati'n barhaus i geisio deall cyfansoddiad ein poblogaeth ac asesu'r effaith y mae ein polisiau a'n cynlluniau'n ei chael ar bawb, gan gynnwys y rheiny sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb megis hil/ethnigrwydd, rhywedd, oedran, anabledd, ffydd/daliadau crefyddol, a chyfeiriadedd rhywiol. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2012-15 a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei brif-ffrydio yng ngwaith y Cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau.

Mae datblygu cynaliadwy'n golygu gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol dinasyddion a chymunedau fel bod nid yn unig y genhedlaeth bresennol, ond hefyd y cenedlaethau sydd i ddod, yn cael ansawdd bywyd gwell. Rydym am i ddatblygu cynaliadwy fod yn rhan annatod o bob agwedd ar ein gwaith a chael ei integreiddio mewn trefniadau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus, yn trin Cymraeg a Saesneg yn gyfartal. Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg cyfredol y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2012-15 ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Mawrth 2012 ac mae'n nodi sut y byddwn yn datblygu gwasanaethau'r Cyngor yn y cyfnod hwn fel eu bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau tuag at y boblogaeth Gymraeg, yn unol ag uchelgeisiau lleol a chenedlaethol.

Safbwyntiau dinasyddion

Rydym wastad yn ymagnïo i ddeall anghenion y gymuned a sut orau i gwrdd â'r rhain. I wneud hyn, rydym yn defnyddio ystod o offer trwy gydol y flwyddyn i ddarganfod safbwyntiau ein dinasyddion: ein gwefan (www.bridgend.gov.uk), e-bost (talktous@bridgend.gov.uk), ein llinell gymorth gwasanaethau cwsmeriaid 24 awr (01656 643643) a'r cyfryngau cymdeithasol ([@BridgendCBC](https://www.facebook.com/BridgendCBC)). Rydym yn defnyddio holiaduron a thrafodaethau wyneb-yn-wyneb gyda chyrrff proffesiynol, er enghraifft y Fforwm Busnes, y Gymdeithas Dwristiaeth a'r Fforwm Gofalwyr, a chyda grwpiau defnyddwyr gwasanaethau, megis y grŵp 'Having a Say' a'r Fforwm Rhieni i bobl ag anableddau dysgu. Mae aelodau etholedig hefyd yn ymweld â lleoliadau preswyl a dydd i blant ac oedolion i archwilio ansawdd y gofal a siarad gyda phreswylwyr.

Rydym yn cynnal ymgynghoriadau arbennig ynghylch mentrau, prosiectau a chynigion polisi penodol. Wrth ddatblygu ac adolygu'r Cynllun hwn, fe wnaethom ymgynghori'n helaeth i geisio adborth ar ein blaenoriaethau ac ymrwymadau gwella gan ddinasyddion, busnesau a phartneriaid lleol. Fe ddefnyddion ni'r Panel Dinasyddion, arolygon ar-lein, grwpiau ffocws a thrafodaethau wyneb-yn-

wyneb gyda grwpiau nas cynrychiolir ddigon, megis y Fforwm Cydraddoldeb a'r Cyngor Ieuenctid. Bu'r wybodaeth a gasglwyd gennym trwy'r broses ymgynghori o gymorth i ni aiddiffinio ein gweledigaeth, ac adnabod a chadarnhau ein blaenoriaethau gwella.

Canfu ein hymgyngoriad diweddaraf ynghylch y Cynllun Corfforaethol fod dros 90% o ddinasyddion yn meddwl bod blaenoriaethau gwella un i bump yn eglur ac yn hawdd i'w deall (79% oedd y ganran ar gyfer blaenoriaeth chwech), a bod 70% o ddinasyddion yn cytuno mai'r ymrwymadau yn y Cynllun oedd y pethau cywir i ganolbwyntio arnynt i gyflawni'r blaenoriaethau gwella. Gwnaeth dinasyddion ystod eang o sylwadau i ategu eu hymatebion, ac rydym wedi ystyried ac adlewyrchu eu pwyntiau lle y bo'n berthnasol. Mae hyn yn cynnwys rhoi pwyslais cynyddol ar roi cymorth i ddisgyblion mwy galluog mewn ysgolion, hyrwyddo cerdded fel gweithgarwch iach a rhoi cyngor i helpu ein dinasyddion i fwyta'n iachach.

Fe geision ni safbwyntiau dinasyddion ar ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) hefyd. Mae adborth a gafwyd ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi cael ei ystyried hefyd a, lle y bo'n briodol, wedi cael ei adlewyrchu yn y Cynllun hwn, megis awgrymiadau y gall dinasyddion gymryd mwy o gyfrifoldeb personol i helpu i leihau'r galw ar wasanaethau'r Cyngor, gwirfoddoli, a bod yn fwy ymrwymedig i lendid ac ailgylchu.

Byddwn yn parhau i ystyried safbwyntiau yr ydym yn eu cael oddi wrth ddinasyddion. Mae ein hymatebion i'r adborth ar yr ymgynghoriadau'n cael eu cyhoeddi ar dudalen we blaenoriaethau a pherfformiad y Cyngor yn www.bridgend.gov.uk.

Sut y byddwn yn cyflawni'r cynllun hwn

Strategaeth ariannol gref

Rydym wedi mabwysiadu dull integredig o ddatblygu ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) 2014 – 2018 a'r Cynllun Corfforaethol hwn i sicrhau bod cysylltiad agos rhwng y ffordd y mae ein hadnoddau'n cael eu dyrannu a'n blaenoriaethau gwella. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig hefyd yn cysylltu â strategaethau adnoddau mewnol eraill megis y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh), y Cynllun Rheoli Asedau a Rhaglen Newid Pen-y-bont ar Ogwr, y mae gan bob un ohonynt ran i'w chwarae o safbwynt ein helpu i ddefnyddio ein hadnoddau'n fwy effeithiol. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gael ar ein gwefan, www.bridgend.gov.uk.

Mae'r Cyngor yn gweithredu mewn amgylchedd ariannol heriol iawn. Daw tua 80% o'n cyllid o grantiau gan Lywodraeth Cymru, gyda'r gweddill yn dod yn bennaf o'r dreth gyngor a ffioedd a thaliadau. Rydym yn dal i wynebu galw cynyddol am wasanaethau. Mae'r prif bwysau cyllidebol yn cynnwys:

- newidiadau demograffig, gan gynnwys cynnydd mewn pobl hŷn, a chynnydd yn nifer y bobl ifanc ag anableddau cymhleth sy'n byw i fod yn oedolion;
- cynnydd yn nifer y plant agored i niwed y mae'n ofynnol i'r Cyngor ofalu amdanynt;
- chwyddiant prisiau; ac
- effaith bosib polisiau cenedlaethol a deddfwriaeth newydd e.e. y Bil Diwygio Lles, y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r Bil Tai.

Mae'r gostyngiad yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â'r pwysau cyllidebol, yn golygu y bydd yn rhaid i ni wneud arbedion o tua £36 miliwn erbyn 2017-18 i sicrhau ein bod yn cyflawni cyllideb fantoledig. Rydym wedi datblygu cynlluniau i gael arbedion o tua £30 miliwn hyd yma, ond mae'n rhaid i ni ddod o hyd i £6 miliwn arall o hyd. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys ystod o fesurau effeithlonrwydd mewnol, prosiectau cydweithredol, ail-drafod telerau contractau a throsglwyddo gwasanaethau o bosib i sefydliadau partner. O ystyried maint y toriadau sy'n ofynnol mae'n anochel y bydd effaith ddilynol ar y gwasanaethau a ddarperir, ond bydd mwy na hanner yr arbedion o £11.3 miliwn sydd wedi'u cynnwys yng nghyllideb 2014-15 yn dod o wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau mewnol, er enghraifft trwy liflinio prosesau a rhesymoli ein swyddfeydd.

Atebolrwydd a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n eglur

Yn y cyfnod hwn o gyllidebau gostyngol a galw cynyddol am wasanaethau'r Cyngor, ni fu'r angen i ni fod â threfniadau rheoli perfformiad effeithiol erioed yn fwy, gan fod hyn yn ein galluogi i:

- flaenoriaethu ein nodau a dyrannu ein hadnoddau gostyngol yn effeithiol;
- sicrhau bod pawb yn glir ynghylch eu rolau a chyfrifoldebau ac yn atebol am gyflawni cynlluniau gwasanaethau ac ariannol y Cyngor; a
- helpu i wella gwasanaethau a deilliannau i'n dinasyddion.

Rydym wedi datblygu Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd i'n helpu i gyflawni hyn. Mae'r fframwaith yn nodi'r egwyddorion, y prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli perfformiad, gan sicrhau bod y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu'n gysylltiedig â'n gweledigaeth a'n blaenoriaethau. Mae'n nodi'n eglur y cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar gyfer pob cam ym mhroses rheoli perfformiad y Cyngor, o gynllunio corfforaethol a busnes, i gyflenwi gwasanaethau. Gallwch weld ein Fframwaith Rheoli Perfformiad ar wefan y Cyngor, www.bridgend.gov.uk ar y dudalen 'blaenoriaethau a pherfformiad'.

Cynlluniau Busnes Cyfarwyddiaethau/Gwasanaethau a Chynlluniau Unigol

Y Cynllun Corfforaethol yw ein cynllun uchaf o ran lefel. Mae'n nodi ein gweledigaeth, y deilliannau yr ydym yn dymuno'u cyflawni, ein blaenoriaethau gwella, ac mae'n diffinio ein hymrwymiadau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod i gyflawni'r blaenoriaethau hynny. Mae'r ymrwymiadau yn y Cynllun Corfforaethol yn cael eu cyflawni trwy gamau gweithredu a mesurau penodol y manylir arnynt yng nghynllun busnes pob cyfarwyddiaeth/gwasanaeth ac mewn cynlluniau perfformiad ar gyfer aelodau unigol o staff. Mae hyn yn sicrhau bod ein blaenoriaethau gwella'n rhan annatod o gyflawni ar bob lefel yn y sefydliad.

Gweithio gyda phartneriaid

Mae ein gwasanaethau'n gynyddol yn cynnwys rhyw elfen o gydweithio. Mae hyn yn amrywio o weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â throseddau ac anhrefn i gyflenwi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd. Mae gennym hefyd bartneriaid sydd wedi cael eu comisiynu ar ein rhan i gyflenwi gwasanaethau, megis ein gwasanaethau hamdden neu wastraff. Bydd angen i ni newid i ddod yn sefydliad sydd ag ymagwedd gryfach tuag at gomisiynu ac yn defnyddio dealltwriaeth glir am anghenion y gymuned i ddatblygu datrysiadau ymarferol gyda phartneriaid a all ein helpu i weithredu mewn ffordd fwy effeithiol ac effeithlon, i ddarparu gwasanaethau gwell ar gyfer ein dinasyddion a chyflawni arbedion ariannol.

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI) yn dwyn ynghyd ystod o bartneriaid o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, gan gynnwys y Cyngor. Mae'r Cynllun Corfforaethol hwn wedi'i alinio â Chynllun Partneriaethau Integredig Sengl y BGLI 'Sir Pen-y-bont ar Ogwr Ynghyd' i sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd ar ddeilliannau cyffredin.

Ein dinasyddion yw ein partneriaid pwysig o ran cyflawni'r Cynllun hwn. Gall unigolion a theuluoedd wneud cryn dipyn i wneud gwahaniaeth i'w hiechyd a'u hamgylchiadau. Mewn perthynas â phob un o'r chwe blaenoriaeth gwella rydym wedi nodi rhai camau gweithredu awgrymedig y gall ein trigolion eu cymryd a fydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol, er enghraifft trwy wirfoddoli yn eich cymuned. Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Pen-y-bont (BAVO) yn darparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau ynghylch pob agwedd ar wirfoddoli. Mae mwy o wybodaeth ar gael trwy wefan BAVO www.bavo.org.uk neu drwy ffonio 01656 810400.

Sut y byddwn yn mesur ac yn monitro llwyddiant

Mae'r Cynllun hwn wedi nodi nifer o 'ddangosyddion llwyddiant' sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau (**Atodiad 1**), y mae rhai ohonynt yn fesurau meincnodi (a ddefnyddir i ddeall sut yr ydym yn perfformio mewn cymhariaeth ag awdurdodau eraill). Mae'r holl ddangosyddion sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun wedi'u bwriadu i fesur llwyddiant ein trefniadau ar gyfer gweithio ar y cyd gyda dinasyddion a phartneriaid – ni allwn eu cyflawni ar ein pen ein hunain.

Mae gennym hefyd ddangosyddion eraill sy'n helpu i fesur ein perfformiad ac sy'n cael eu monitro trwy gydol y flwyddyn ar wahanol lefelau ar draws y sefydliad. Mae rhai o'r dangosyddion hyn yn fesurau a ddatblygwyd yn lleol ac mae eraill yn rhai cenedlaethol, gan gynnwys mesurau statudol y mae rhwymedigaeth arnom i'w casglu ac adrodd arnynt wrth Lywodraeth Cymru.

Mae Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor yn craffu'n rheolaidd ar ein perfformiad ac mae archwilwyr allanol a chyrrff arolygu, megis Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Estyn yn craffu arno hefyd.

Rydym yn adrodd ar y cynnydd a wneir gennym ar y cyd mewn perthynas â'r mesurau llwyddiant a dangosyddion perfformiad allweddol eraill trwy ein Hadroddiad Blynyddol. Rydym hefyd yn defnyddio ffyrdd eraill i gyfleu gwybodaeth am ein perfformiad, megis Bwletinâu arbennig a datganiadau i'r cyfryngau. Mae Adroddiadau Blynyddol y Cyngor ar gael ar ein gwefan, www.bridgend.gov.uk. Rydym yn adolygu'r Cynllun Corfforaethol, gan gynnwys y mesurau llwyddiant, yn flynyddol.

Eich sylwadau chi

Rydym yn dal i groesawu eich sylwadau ar y Cynllun hwn. Bydd eich adborth yn cael ei ystyried yn ystod yr adolygiad blynyddol ac mae croeso i chi ei gyflwyno bob amser trwy ein gwefan: www.bridgend.gov.uk, trwy Twitter: [@BridgendCBC](https://twitter.com/BridgendCBC), trwy'r e-bost i improvement@bridgend.gov.uk neu drwy ysgrifennu at Y Tîm Gwella Corfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cwrt y Cigfrain, Lôn y Bragdy, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 3LP.

BLAENORIAETH GWELLA UN – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I DDATBLYGU’R ECONOMI LEOL



ddiogelu swyddi a chreu cyfleoedd cyflogaeth o ansawdd uchel yn y dyfodol. Bydd gweithlu crefftus yn helpu i ddenu busnesau â swyddi sy'n talu'n dda i'r ardal. Byddwn yn gweithio gyda'r partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned a'r partneriaid yn y sector preifat i helpu pobl i ennill y sgiliau y mae eu hangen arnynt i gynyddu eu potensial ar gyfer cyflogaeth.

Pam fod hyn yn bwysig?

Mae ein dinasyddion wedi dweud wrthym mai'r economi leol yw'r maes pwysicaf i ni ganolbwyntio arno. Trwy ddatblygu ein heconomi leol ac adfywio canolau ein trefi rydym yn ymgnio i leihau effaith y dirywiad economaidd diweddar ar fusnesau a chyflogaeth. Rydym yn creu'r amodau a ddylai ddenu buddsoddiadau gan y sector preifat yn y dyfodol, sicrhau bod canolau ein trefi'n parhau i ffynnu ac annog pobl i ymweld.

Er eu bod yn dal uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, fe gwmpodd cyfraddau cyflogaeth yn y fwrdeistref sirol yn 2012-13 i 68.9% ar gyfer pobl 16-64 oed, a 47.1% ar gyfer pobl 16-24 oed. Fodd bynnag, rydym wedi gweld gostyngiad yn y gyfran o'r plant sy'n byw mewn aelwydydd heb unrhyw un mewn cyflogaeth – mae wedi gostwng i 17.5% ac felly islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Byddwn yn parhau i adfywio canolau ein trefi a gweithio gyda chymunedau ledled y fwrdeistref sirol i

Sut ydym wedi gwneud hyd yma?

Rydym eisoes wedi cyfrannu at y flaenoriaeth hon trwy:

- gwblhau gwelliannau i ganol tref Pen-y-bont yn Heol Merthyr Mawr, Yr Ochr Rad a Heol y Llys;
- creu marina ym Mhorthcawl a agorodd yn haf 2013;
- ailddatblygu canol tref Maesteg trwy gynnwys 14 uned farchnad newydd, ardal aros dan do newydd yn yr orsaf fysiau, a sgwâr cyhoeddus newydd sy'n darparu lleoliad canolog ar gyfer digwyddiadau a pherfformiadau;
- helpu cyfanswm o 165 o bobl i gael swyddi trwy glybiau gwaith Partneriaeth Cyswllt Cyflogwyr Pen-y-bont ar Ogwr;
- dosbarthu grantiau sy'n gyfanswm o £185,856 i roi cymorth i 116 o fusnesau presennol ac un fenter gymdeithasol, a helpu 33 o bobl i sefydlu busnesau newydd. Ar y cyfan, fe greodd y Gronfa Fuddsoddi Leol dros 275 o swyddi yn 2012-13;
- gwneud gwelliannau i'n rhwydwaith Hawliau Tramwy, a oedd yn cynnwys gwneud gwelliannau i 9.6 milltir o lwybrau a chreu 1.9 milltir o lwybrau newydd;
- ychwanegu Menter Treftadaeth Treflun (THI) Porthcawl at ein pedwar cynllun arall ym Maesteg a Phen-y-bont. Fe wnaethom adnewyddu pum eiddo yn 2012-13 a denu £580,000 o gyllid gan y sector preifat i wella adeiladau hanesyddol yng nghanolau ein trefi; ac
- ymestyn y Tîm Sgiliau Sylfaenol sy'n gweithredu o Ganolfan Fywyd y Pîl i weithio gydag oedolion o fewn teuluoedd i wella'u sgiliau sylfaenol.

Beth ydym yn dymuno'i gyflawni erbyn 31 Mawrth 2017?

Rydym yn dymuno bod â chanolau trefi, safleoedd busnes a rhwydweithiau cludiant a chyfathrebu sy'n diwallu anghenion trigolion, busnesau ac ymwelwyr, gan sicrhau mynediad at gyfleoedd cyflogaeth sy'n amrywiol ac yn ddiogel yn yr hirdymor.

Byddwn yn:

- parhau i weithredu prosiectau a rhaglenni adfywio allweddol i wella a datblygu ein heconomi;
- sicrhau bod y fwrdeistref sirol yn gallu cystadlu ar lefel ranbarthol am swyddi, gan ddenu buddsoddiad pellach gan fusnesau newydd a phresennol a chefnogi entrepreneuriaid;
- gweithio gyda darparwyr cludiant cyhoeddus a chymunedau i wella cysylltiadau cludiant;
- gweithredu Hawliau Tramwy, llwybrau beicio a llwybrau cymunedol i ddarparu dewisiadau eraill yn lle cerbydau a chludiant cyhoeddus;
- gwneud gwaith i briffyrdd er mwyn gwella'r rhwydwaith priffyrdd a diogelwch priffyrdd ar y cyfan;

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr: Gweithio gyda'n gilydd i wella bywydau yn y Fwrdeistref Sirol

- parhau i ddenu twristiaid i'r ardal i gynnal yr economi; a
- gwella cyfleoedd a'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu gydol oes, yn enwedig ar gyfer pobl sy'n ddi-waith yn yr hirdymor a'r rhai â chymwysterau addysgol, sgiliau neu hyfforddiant isel neu heb ddim o gwbl.

Sut allwch chi chwarae rhan?

Gallwch chi helpu trwy wneud y canlynol:

- siopa'n lleol i gefnogi ein heconomi leol;
- i berchnogion busnesau, bod â chadwyn gyflenwi leol, darparu cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc trwy brentisiaethau, ac adnabod y sgiliau y bydd eu hangen yn y dyfodol a hysbysu sefydliadau dysgu/addysg yn eu cylch;
- gwella eich ymrwymiad i lendid ac ailgylchu. (Bob blwyddyn, mae'n costio £45,000 i waredu gwm cnoi o balmentydd ein strydoedd ac £1.7 miliwn i lanhau ein strydoedd a'n priffyrdd); a
- manteisio ar gyfleoedd dysgu i oedolion, gan gynnwys TGAU, a allai eich helpu chi, neu eich teulu a'ch ardal leol.

Sut fyddwn ni'n gwybod a ydym yn llwyddo ar y cyd?

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo pan fydd y canlynol yn wir:

- pan fydd busnesau a dinasyddion yn elwa o gyfleusterau gwell yng nghanolau ein trefi;
- pan fydd nifer y busnesau gweithredol yn cynyddu;
- pan fydd ein cyfraddau cyflogaeth a chyflogaeth ieuentid yn gwella mewn perthynas â'r cyfartaledd cenedlaethol;
- pan fydd y gyfran o'r boblogaeth, 16-18 oed, yr hysbyswyd Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) yn cwmpo;
- pan fydd y ganran o'r plant sy'n byw mewn aelwydydd lle nad oes unrhyw un yn gweithio'n cwmpo;
- pan fydd hyd a nifer y llwybrau cymunedol yn cynyddu;
- pan fydd y ganran o'r ffyrdd ar y cyfan sydd mewn cyflwr gwael yn gostwng;
- pan fydd nifer yr ymwelwyr â'r fwrdeistref sirol yn cynyddu;
- pan fydd cyfanswm y refeniw sy'n dod i mewn i'r fwrdeistref o ganlyniad i dwristiaeth yn tyfu;
- Pan fydd Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) y pen yn codi. (Mae GVA yn fesur o faint economi ardal); a hefyd
- Pan fydd Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario (GDHI) y pen yn cynyddu. (Mae GDHI yn mesur lefel yr incwm gwario sydd ar gael i aelwydydd).

Ein hymrwymiaidau ar gyfer 2014-15

Byddwn yn parhau i adfywio canolau ein trefi, yn mynd ati mewn ffordd weithredol i chwilio am gyfleoedd cyllido newydd ac annog buddsoddiadau newydd i helpu i hybu ein heconomi leol, yn darparu cyfleoedd cyflogaeth ychwanegol ac yn denu mwy o ymwelwyr i'r fwrdeistref sirol.

Byddwn yn:

- cwblhau'r rhaglen gyfredol o waith adfywio yng nghanol tref Pen-y-bont;
- dechrau rhaglen newydd o waith i ddatblygu safleoedd adwerthu, swyddfeydd a phreswyl yng nghanol tref Pen-y-bont yn amodol ar lwyddiant ein cynnig am gyllid i Lywodraeth Cymru;
- ailwerthuso opsiynau datblygu a pharhau i reoli prosiectau adfywio ym Mhorthcawl;
- dechrau datblygu safle Heol Ewenni ym Maesteg a datblygu cynigion ar gyfer datblygiadau pellach yng Nghwm Llynfi;
- gweithio gydag awdurdodau lleol cyfagos i roi cymorth â ffocws i fusnesau i'w helpu i fuddsoddi a chreu swyddi;
- gwella cysylltiadau cludiant, cysylltiadau ar gyfer cerddwyr a chysylltiadau beicio rhwng y rhwydwaith bysiau a rheilffyrdd a safleoedd cyflogaeth ac addysg;
- cwblhau blwyddyn olaf y rhaglen gwella priffyrdd dair blynedd i wella cyflwr ein ffyrdd;
- ymgysylltu â phobl a chymunedau i ddeall eu hanghenion dysgu fel bod cyrsiau'n cael eu datblygu sy'n diwallu'r anghenion hynny a bod rhagolygon cyflogaeth yn cael eu gwella;
- sefydlu darpariaeth ledled y fwrdeistref sirol gyda phartneriaid a fydd yn helpu pobl i ennill sgiliau a chael hyfforddiant sy'n arwain at gyflogaeth; a
- sefydlu Partneriaeth Twristiaeth Pen-y-bont ar Ogwr a gweithio gyda phartneriaid i wella llety, atyniadau a digwyddiadau.

BLAENORIAETH GWELLA DAU – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I GODI UCHELGEISIAU A CHYNYDDU CYFLAWNIAD ADDYSGOL



Pam fod hyn yn bwysig?

Mae cyrhaeddiad mewn ysgolion yn y fwrdeistref sirol islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac mae sgoriau diweddar yn dangos bod Cymru wedi syrthio ymhellach y tu ôl i weddill y DU – a'r byd – mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth. Gwelsom welliannau ym mhob Cyfnod Allweddol ym mlwyddyn academaidd 2011-12 ond mae'n rhaid i'r rhain fynd ymhellach.

Ceir bwch mewn cyflawniad hefyd rhwng disgyblion sydd o aelwydydd ar incwm is a'r rhai nad ydynt. Mae'n rhaid i ni weithio gyda'n partneriaid i leihau'r bwch yma, a rhoi cymorth i ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol er mwyn cynyddu cyrhaeddiad addysgol ar gyfer yr holl ddysgwyr yn y fwrdeistref sirol. Bydd hyn yn gwella'r rhagolygon yn y dyfodol ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc.

Gwyddom fod addysg dda'n helpu i baratoi plant a phobl ifanc ar gyfer pob agwedd ar eu bywydau, gan gynnwys ennill sgiliau ar gyfer cyflogaeth, gofalu am eu teuluoedd a chyfrannu at eu cymunedau. Er mwyn codi uchelgeisiau ein plant, mae'n rhaid i'n cymunedau a'n rhieni fod yn rhan o weithgarwch dysgu eu plant a sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol, ac mae'n rhaid i'n hysgolion ddarparu'r amgylchedd, y sgiliau, a'r cymorth cywir ac awch am lwyddiant er mwyn i'n disgyblion ffynnu.

Sut ydym wedi gwneud hyd yma?

Rydym eisoes wedi cyfrannu at y flaenoriaeth hon fel a ganlyn:

- gwella canlyniadau yn y dangosydd pynciau craidd (Cymraeg/Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4;
- cynyddu'r sgôr pwyntiau cyfartalog yng Nghyfnod Allweddol 4 (a gyfrifir ar sail graddau TGAU) i gyrraedd y cyfartaledd ar gyfer Cymru;
- cynyddu ein ffigyrau presenoldeb mewn ysgolion ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd ledled y fwrdeistref sirol;
- gwella'r ddarpariaeth mewn ysgolion prif-ffrwd ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol;
- cymryd nifer o gamau gweithredu i ostwng y ganran o'r bobl ifanc 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), gan gynnwys ystod well o gyfleoedd dysgu hyblyg i gynnal ymgysylltiad pobl ifanc â dysgu;
- cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion 14-19 oed ennill cymwysterau mewn ystod ehangach o bynciau, gyda'r holl ysgolion uwchradd yn y fwrdeistref sirol yn cynnig Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefelau sylfaen, canolradd ac uwch;
- parhau i annog pobl ifanc i ymgysylltu â chyfleoedd gwirfoddoli, gan eu galluogi i ennill profiad mewn amgylchedd gwaith;
- datblygu llyfrgell newydd yng Nghanolfan Hamdden Pen-y-bont mewn partneriaeth gyda HALO Leisure Ltd. Mae'r llyfrgell newydd yn cynnig lle newydd cyffrous i blant ac amgylchedd dysgu modern i fyfyrwyr o bob oed. Cafwyd 10,000 o ymwelwyr â hi yn y mis cyntaf wedi iddi agor a 200 o aelodau newydd ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd; a hefyd
- ein gwasanaeth llyfrgelloedd yn dod yn llwyddo i gael grant dan raglen Cymunedau 2.0. Mae Tiwtor Cynhwysiant Digidol yn gweithio fel rhan o raglen strategol ehangach o'r enw 'Dewch Ar-lein Pen-y-bont ar Ogwr'. Ers mis Mai 2013, mae 150 o unigolion wedi cael eu cynorthwyo.

Beth ydym yn dymuno'i gyflawni erbyn 31 Mawrth 2017?

Rydym yn dymuno sicrhau, trwy weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant lleol, bod ein plant a phobl ifanc yn cyflawni gwelliannau i'w canlyniadau addysgol, yn ennill cymwysterau ac yn cael hyfforddiant.

Erbyn 2017, rydym ni am i bob ysgol fod yn gwella yn ôl cyfradd sy'n llawer cyflymach fel bod o leiaf ddwy ran o dair o'r bobl ifanc yn cyflawni isafswm o bum TGAU â Gradd A*-C neu gymwysterau cyfwerth, gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a mathemateg, a bod y bwch mewn llythrennedd a rhifedd rhwng y rheiny sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rheiny nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim yn cael ei leihau.

Byddwn yn:

- gweithio gydag ysgolion a phartneriaid eraill i helpu plant a phobl ifanc i wella'u sgiliau darllen, ysgrifennu a rhif, fel eu bod wedi'u harfogi'n briodol ar gyfer dysgu pellach a byd gwaith;
- parhau i ddatblygu addysg a hyfforddiant ar gyfer y rheiny dros 16 oed, fel bod ganddynt fynediad cyfartal at ystod eang o gyfleoedd dysgu cyffredinol ac yn y gwaith;
- sicrhau bod gan yr holl bobl ifanc fynediad at gymorth personol effeithiol a'u bod yn cael cyngor o ansawdd uchel a gwybodaeth ddiuedd am y cyfleoedd dysgu sy'n agored iddynt;
- gweithio gydag ysgolion i wella presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd;
- parhau i leihau meintiau dosbarthiadau a'r cymarebau rhwng disgyblion ac athrawon mewn ysgolion cynradd; a hefyd
- cyflawni cynllun chwaraeon blynyddol Pen-y-bont ar Ogwr i ddatblygu safonau uwch o ran llythrennedd corfforol ymhlith pobl ifanc.

Sut allwch chi chwarae rhan?

Gallwch chi helpu trwy wneud y canlynol:

- chwarae rhan ym mhrofiadau dysgu eich plant, er enghraifft trwy siarad gydag athrawon a helpu eich plant gyda'u gwaith cartref;
- sicrhau bod eich plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, gan fod absenoldeb yn gwneud gwahaniaeth o ran pa mor dda y mae plant yn dysgu ac yn ennill cymwysterau;
- annog plant a phobl ifanc i anelu'n uchel a gweithio'n galed;
- gwirfoddoli yn eich ysgol leol;
- annog plant i wneud defnydd da o'n gwasanaethau llyfrgelloedd lleol; a hefyd
- ceisio profiadau addysgol i'ch plant y tu allan i'r ysgol, megis chwaraeon neu ddiwyddiadau diwylliannol.

Sut fyddwn ni'n gwybod a ydym yn llwyddo ar y cyd?

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo pan fydd y canlynol yn wir:

- pan fydd y rhan fwyaf o blant yn gallu darllen, ysgrifennu a chyfrif i lefel o sgil sy'n angenrheidiol i lwyddo mewn bywyd, erbyn yr amser eu bod yn cwblhau eu haddysg gynradd;
- pan fydd lefelau cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion ym mhob ardal ledled y fwrdeistref sirol yn cynyddu;
- pan fydd pobl ifanc yn cyflawni'r lefel cymwysterau a ddisgwylir ganddynt mewn TGAU;
- pan fydd y bwlch mewn perfformiad yn yr ysgol rhwng y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rheiny nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim wedi lleihau;
- pan fydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn y cymorth y mae ei angen arnynt;
- pan fydd pobl ifanc sydd wedi gadael yr ysgol yn camu ymlaen i addysg bellach, yn dod o hyd i gyflogaeth neu'n cael rhyw fath o hyfforddiant;
- pan fydd pobl ifanc sy'n gadael addysg neu hyfforddiant ffurfiol yn gwneud hynny â chymhwyster cymeradwy i roi mynediad iddynt at ystod eang o gyfleoedd cyflogaeth a'r rheiny'n gyfleoedd gwell; a hefyd
- pan fydd y ganran o'r plant sy'n aelodau o'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cynyddu.

Ein hymrwymiaadau ar gyfer 2014-15

Rydym am sicrhau newid mawr yn y gyfradd gwella fel ein bod yn gweld, erbyn Medi 2015, bod plant yn meddu ar lythrennedd a rhifedd gweithredol ar ddiwedd eu haddysg gynradd, a bod o leiaf 60% o'r bobl ifanc yn cyflawni'r lefel cymwysterau a ddisgwyllir ganddynt mewn TGAU.

Byddwn yn:

- defnyddio data i sicrhau ein bod yn deall perfformiad unigolion a grwpiau o ddysgwyr yn well ac yn cynnig cymorth ychwanegol ar adeg gynharach yn eu haddysg;
- rhoi cymorth i ysgolion ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion ac anghenion disgyblion mwy galluog ac arnynt angen cymorth ychwanegol i gyrraedd eu llawn potensial;
- monitro a cheisio gwella effeithiolrwydd ysgolion trwy Consortiwm Canolbarth y De;
- gostwng nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET);
- rhoi i bobl ifanc 14-19 oed y cyngor y mae'i angen arnynt i sicrhau eu bod yn ymgymryd â'r math cywir o gymhwyster iddynt hwy;
- datblygu a gweithredu'r strategaeth presenoldeb mewn ysgolion;
- darparu ysgolion bro sy'n diwallu anghenion yr holl ddysgwyr a'u cymuned leol;
- datblygu cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad lleol mewn rhaglenni arweinyddiaeth chwaraeon a rhaglenni dysgu achrededig ar gyfer pobl ifanc; a
- hyrwyddo llyfrgelloedd a gweithredu cyfres o raglenni sydd wedi'u bwriadu i annog mwy o blant a phobl ifanc i fwynhau darllen.

BLAENORIAETH GWELLA TRI – GWEITHIO GYDA PHLANT A THEULUEDD I FYND I'R AFAEL Â PHROBLEMAU'N GYNNAR



Pam fod hyn yn bwysig?

Mae gan y fwrdeistref sirol gyfraddau uchel o blant sy'n derbyn gofal a phlant ar y gofrestr amddiffyn plant. Mae gennym ddyletswydd gofal i gadw'r plant hyn yn ddiogel, ond mae hyn yn achosi pwysau ariannol mawr ar adeg o doriadau dyfnach. Mae angen i ni ei gwneud yn haws i deuluoedd gael mynediad at y cymorth y mae ei angen arnynt a chynyddu effeithiolrwydd dulliau o ymyrryd yn gynnar er budd teuluoedd.

Trwy weithio i fynd i'r afael â phroblemau'n gynnar dylem weld deilliannau gwell i blant a theuluoedd, a gostwng nifer y plant sy'n derbyn gofal. Mae ymyriadau cynnar yn canolbwyntio ar roi cymorth ychwanegol, amserol ac effeithiol i blant a theuluoedd ac arnynt ei angen cyn bod anawsterau'n dod yn fwy cymhleth, difrifol a chostus i'w datrys. Os gallwn ostwng nifer y plant yng ngofal yr awdurdod lleol, mae nid yn unig yn gostwng y pwysau cyllidebol ond mae hefyd yn gostwng mynychder y cyfleoedd bywyd lleihaol sy'n gysylltiedig â phlant sy'n derbyn gofal – mae ymchwil ddiweddar yn dangos eu bod 28 gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith pan fyddant yn 25 oed na'r rheiny nad ydynt yn blant sy'n derbyn gofal.

Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i wella ein gwasanaeth mabwysiadu a gwella'r rhagolygon i'r plant hynny sydd eisoes yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Hefyd, byddwn yn ymestyn rhaglen Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru ymhellach mewn ardaloedd ledled y fwrdeistref sirol. Bydd hyn yn rhoi i'n plant a phobl ifanc yr amgylchedd y mae'i angen arnynt ar gyfer y dechrau gorau mewn bywyd.

Sut ydym wedi gwneud hyd yma?

Rydym eisoes wedi cyfrannu at y flaenoriaeth hon fel a ganlyn:

- sefydlu canolbwyntiau cymunedol amlasiantaeth i ddwyn ynghyd dimau ac arferion gweithio. Trwy'r tîm amlasiantaeth, Cysylltu Teuluoedd, rydym yn archwilio gwahanol ffyrdd o weithio'n fwy effeithiol gyda theuluoedd sydd â'r anawsterau mwyaf cronig a chymhleth, ac sy'n tynnu ar ystod eang o wasanaethau;
- cynyddu nifer y teuluoedd sy'n elwa o gymorth dwys i deuluoedd a roddir gan y tîm Cysylltu Teuluoedd a'r Gwasanaethau Cymorth Dwys i Deuluoedd a fabwysiadodd ddull 'tîm o amgylch y teulu';
- uno ein gwasanaeth ôl-ofal a'n gwasanaeth ieuencid 'Just Ask' i greu'r gwasanaeth newydd 'Just @sk+'. Mae hwn yn wasanaeth integredig ar gyfer pobl ifanc agored i niwed sy'n 16-25 oed sy'n darparu cymorth ar draws ystod o feysydd gan gynnwys tai, datblygiad personol, addysg a hyfforddiant;
- rhoi ar waith raglenni rhianta i helpu rhieni i reoli ymddygiad anodd eu plant; ac
- ehangu ein darpariaeth Dechrau'n Deg i gynnwys Bracla, Cefn Glas a Gorllewin Maesteg.

Beth ydym yn dymuno'i gyflawni erbyn 31 Mawrth 2017?

Rydym yn dymuno cynyddu effeithiolrwydd cymorth ac ymyriadau cynnar i atal materion rhag dod yn gymhleth, a lleihau'r risg y bydd plant yn dod yn blant sy'n derbyn gofal.

Byddwn yn:

- dwyn gwasanaethau ynghyd trwy ganolbwyntiau cymunedol i helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd i fynd i'r afael â'u problemau ar y cyfle cyntaf;
- gweithio gyda rhieni a gofalwyr i sicrhau bod plant yn ffynnu;
- gweithio gyda theuluoedd ac asiantaethau partner i sicrhau bod teuluoedd yn cael yr help y mae ei angen arnynt ar y cyfle cyntaf i ddiwallu eu hanghenion;
- gweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, teuluoedd a'r holl bartneriaid i alluogi pobl i gael mynediad at dai neu gadw tai sy'n diwallu eu hanghenion; a hefyd
- parhau i ategu'r dysgu ar gyfer plant bach iawn ac adeiladu ar lwyddiant y fenter Dechrau'n Deg trwy ei hymestyn i ardaloedd newydd yn y fwrdeistref sirol.

Sut allwch chi chwarae rhan?

Gall teuluoedd helpu trwy wneud y canlynol:

- sicrhau, hyd y gallant, bod anghenion sylfaenol holl aelodau'r teulu'n cael eu diwallu;
- ceisio help ar adeg gynnar os oes anghenion sylfaenol nad ydynt yn cael eu diwallu neu os oes problemau teuluol heb eu datrys;
- bod yn barod i ddod o hyd i atebion i broblemau gyda help gweithwyr cymorth i deuluoedd neu wasanaethau mwy arbenigol; a hefyd
- derbyn y cynnig o ddarpariaeth gofal Dechrau'n Deg lle ceir hynny.

Sut fyddwn ni'n gwybod a ydym yn llwyddo ar y cyd?

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo pan fydd y canlynol yn wir:

- pan fydd ein mesurau ymyrryd yn gynnar yn arwain at ostyngiad yn:
 - nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol;
 - nifer y plant sy'n derbyn gofal;
 - nifer y plant mewn angen;
 - nifer y plant a gofnodwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant;
- pan fydd y rhagolygon ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn y fwrdeistref sirol yn gwella, gyda llai ohonynt yn gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig;
- pan fydd nifer y plant a fabwysiadwyd yn cynyddu;
- pan fydd mwy o bobl ifanc sy'n gadael gofal yn gallu cael yr help a'r gefnogaeth barhaus y mae eu hangen arnynt;
- pan fydd mwy o deuluoedd yn elwa o weithio gyda'r timau Cymunedol Amlasiantaeth ac yn derbyn cymorth ar adeg gynharach; a hefyd
- pan fydd mwy o deuluoedd a phlant bach yn cael mynediad at y ddarpariaeth Dechrau'n Deg.

Ein hymrwymiaidau ar gyfer 2014-15

Rydym am gyflawni mwy o newidiadau cadarnhaol i fwy o blant a theuluoedd.

Byddwn yn

- sefydlu systemau sy'n golygu mai dim ond unwaith y mae angen i deuluoedd adrodd eu storïau gan ddefnyddio Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd;
- cynyddu nifer y staff mewn rôl gweithiwr allweddol penodol o fewn y timau Cymunedol Amlasiantaeth;
- parhau i ddatblygu trefniadau gweithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid perthnasol;
- gwella'r ffordd yr ydym ni ac asiantaethau eraill yn helpu teuluoedd i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol eu problemau;
- cynyddu nifer y gweithwyr cymorth i deuluoedd a'u hyfforddi i helpu teuluoedd i wneud y penderfyniadau sy'n iawn iddynt hwy;
- gweithredu'r strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal a'r gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol;
- gweithredu rhaglen 'Teuluoedd yn Gyntaf' a ailgyfluniwyd; a hefyd
- cynyddu nifer y plant sy'n elwa o ddarpariaeth feithrin Dechrau'n Deg trwy ehangu'r gwasanaeth i Lewistown, Melin Ifan Ddu a Sarn.

BLAENORIAETH GWELLA PEDWAR – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I HELPU POBL AGORED I NIWED¹ I BARHAU I FOD YN ANNIBYNNOL



Pam fod hyn yn bwysig?

Mae ein poblogaeth yn mynd yn hŷn - mae nifer y bobl sy'n 75 oed ac yn hŷn yn tyfu yn ôl cyfradd o fwy na 4% y flwyddyn a dywed Cymdeithas Clefyd Alzheimer y bydd dementia ar un ym mhob tri o bobl erbyn eu bod yn 85 oed.

Hefyd mae mwy o bobl ifanc â chyflyrau iechyd cymhleth yn byw i fod yn oedolion. Mae'n beth da bod pobl yn byw yn hwy ac yn goroesi afiechydon anodd, ond mae hyn hefyd yn dod â heriau ar ffurf galwadau cynyddol ar wasanaethau a'r costau uwch cysylltiedig i ateb y galw yma.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i helpu a chefnogi ein dinasyddion mwyaf agored i niwed ond, yn y cyfnod hwn o gyllidebau gostyngol a galwadau cynyddol, mae'n hanfodol ein bod yn dod o hyd i ffyrdd arloesol a hyblyg o ddatblygu a darparu gwasanaethau hanfodol i roi cymorth i oedolion fyw'n annibynnol yn y fwrdeistref sirol am gyhyd â phosib.

Mae rhoi gofal cartref y Cyngor ar gontract allanol i sefydliad partner yn un opsiwn yr ydym yn ymchwilio iddo. Rydym yn dymuno sicrhau parhad yn y gofal a ddarperir ar gyfer defnyddwyr ein gwasanaethau gyda'r amhariad lleiaf posib, felly mae'n bwysig i ni weithio gyda phartner sy'n rhannu ein gwerthoedd a'n huchelgeisiau.

¹ At ddibenion y cynllun hwn, y diffiniad o bobl agored i niwed yw'r unigolion sydd mewn perygl o golli eu hannibyniaeth, os nad ydynt yn derbyn cyngor neu gymorth

Sut ydym wedi gwneud hyd yma?

Ar y cyd â phartneriaid, rydym eisoes wedi cyfrannu at y flaenoriaeth hon fel a ganlyn:

- darparu gwasanaethau cymorth yn y cartref a'r gymuned ac ystod o wasanaethau arbenigol ar gyfer dros 3,000 o oedolion bob dydd fel eu bod yn gallu byw bywydau mwy annibynnol, gwella eu hansawdd bywyd neu atal eu cyflyrau rhag dod yn fwy difrifol;
- cynyddu nifer y gosodiadau Teleofal yng nghartrefi pobl agored i niwed, gan eu helpu i reoli'r risgiau a all fod yn bresennol;
- agor uned breswyl â chwe ystafell wely sy'n rhoi help, cyngor a chefnogaeth i bobl sydd wedi cael arhosiad yn yr ysbyty, fel eu bod yn gallu gofalu amdanynt hwy eu hunain pan ydynt yn dychwelyd i'w cartref eu hunain;
- sefydlu cynllun i roi cymorth i bobl â dementia aros yn eu cartrefi eu hunain;
- gweithredu rhaglen i helpu i atal pobl oedrannus ac agored i niwed rhag cwmpo yn eu cartrefi trwy weithio mewn partneriaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- sefydlu timau cymunedol iechyd a gofal cymdeithasol integredig gyda Bwrdd Iechyd PABM. Mae'r dull cydgysylltiedig hwn o gyflenwi cymorth a gwasanaethau lleol wedi rhoi cymorth i niferoedd cynyddol o ddinasyddion yn eu cartrefi eu hunain ac wedi helpu i osgoi'r angen am arhosiad yn yr ysbyty;
- gwneud cynnydd wrth ddatblygu un pwynt mynediad ar gyfer pobl ac arnynt angen cymorth cymunedol, gan amcanu at sicrhau y bydd pobl yn derbyn ymateb mwy cydgysylltiedig ac effeithiol;
- cwblhau'r gwaith o ddatblygu strategaeth Anabledau Dysgu. Bydd hon yn tanategu ein cymorth i bobl mewn gwahanol gyfnodau yn eu bywydau gan amcanu at gynyddu eu hannibyniaeth i'r eithaf;
- cynhyrchu Strategaeth Gwybodaeth ac Ymgynghori ar gyfer Gofalwyr ar y cyd â Bwrdd Iechyd PABM; a
- hysbysu dinasyddion sy'n derbyn budd-dal tai a budd-dal y dreth yngor ynghylch y newidiadau a'r effaith yn sgîl diwygiadau lles Llywodraeth y DU.

Beth ydym yn dymuno'i gyflawni erbyn 31 Mawrth 2017?

Rydym yn dymuno galluogi pobl agored i niwed i fyw'n annibynnol.

Byddwn yn:

- gweithio gyda phartneriaid ledled rhanbarth Bae'r Gorllewin, sef Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe a chyda Bwrdd Iechyd PABM i alluogi pobl hŷn a phobl ag anableddau dysgu a chyflyrau iechyd meddwl i gael deilliannau gwell;
- gweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a phartneriaid, gan gynnwys y trydydd sector, i ddatblygu gwasanaethau mewn ffordd sy'n rhoi cymorth i bobl barhau i fod yn annibynnol am yn hwy a chael mynediad at wasanaethau statudol dim ond pan fo'n gwbl angenrheidiol;
- rhoi cymorth i ofalwyr i'w galluogi i barhau yn eu rôl ofalu;
- gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ystod o ddewisiadau o ran llety a chymorth i bobl agored i niwed a phobl hŷn ac arnynt angen help i gyflawni neu gynnal annibyniaeth; a
- sicrhau bod anghenion pobl hŷn yn cael eu cydnabod wrth ddylunio gweithgareddau a chyfleoedd cymunedol.

Sut allwch chi chwarae rhan?

Gallwch chi helpu trwy wneud y canlynol:

- rhoi eich safbwyntiau i ni ar y math o gymorth a gwasanaethau a fyddai o fudd yn eich tyb chi ac ar unrhyw newidiadau i flaenoriaethau a gwasanaethau yr ydym ni'n eu cynnig;
- gwirfoddoli, gan fod gwirfoddolwyr yn chwarae rhan hollbwysig wrth helpu i ofalu am berthnasau, ffrindiau a chymdogion; a
- rhoi adborth i ni ar ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth yr ydych chi neu aelodau o'ch teulu'n ei dderbyn ar hyn o bryd.

Sut fyddwn ni'n gwybod a ydym yn llwyddo ar y cyd?

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo pan fydd y canlynol yn wir:

- pan fydd y gyfran o'r bobl hŷn 65+ oed sy'n byw'n annibynnol yn cynyddu;
- pan fydd niferoedd y derbyniadau amhriodol i'r ysbyty a lleoliadau gofal preswyl wedi gostwng (hynny yw, lle gellir darparu'r gofal angenrheidiol mewn lleoliad mwy priodol);
- pan fydd mwy o ofalwyr yn dweud eu bod yn cael cymorth a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu;

- pan fydd nifer y bobl sydd wedi cael eu rhyddhau o'r ysbyty i fyw gartref gyda phhecynnau gofal byrdymor yn cynyddu; a hefyd
- pan fydd nifer y diwrnodau ar gyfartaledd a gymerir i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn gostwng.

Ein hymrwymiaidau ar gyfer 2014-15

Rydym am sicrhau bod gofal a chymorth effeithiol yn cael eu rhoi i bobl pan fo'u hangen arnynt

Byddwn yn:

- parhau i ddod â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol at ei gilydd er mwyn ymateb yn briodol i bobl hŷn ac anabl a datblygu gwasanaethau ataliol ymhellach o fewn y gymuned;
- gweithio gyda sefydliad(au) partner i ailfodelu ein gwasanaethau gofal cartref a phreswyl;
- adolygu'r trefniadau comisiynu gyda'r trydydd sector i sicrhau bod y cymorth a'r gwasanaethau cywir yn bodoli;
- creu dewisiadau eraill yn lle derbyn i'r ysbyty gan gynnwys seibiant, darpariaeth mewn argyfwng a chymorth gan ofalwyr;
- sicrhau bod safonau wedi'u sefydlu ac yn cael eu monitro i wella ansawdd gofal;
- datblygu cytundeb gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag anghenion gofalwyr ledled rhanbarth Bae'r Gorllewin;
- parhau i ddatblygu modelau newydd o ran gwasanaeth a chymorth i bobl yn ystod y dydd;
- datblygu strategaeth llety gydag ystod o opsiynau o ran llety â chymorth;
- cynyddu'r opsiynau o ran llety i aelwydydd sy'n ddigartref neu'n wynebu bygythiad o ddigartrefedd;
- adolygu Polisi Adnewyddu Tai'r Sector Preifat ac Addasiadau ar gyfer Pobl Anabl i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion ac yn rhoi gwerth am arian; a hefyd
- parhau i weithio gyda phartneriaid i liniaru effeithiau Diwygiadau Lles Llywodraeth y DU.

BLAENORIAETH GWELLA PUMP – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I FYND I’R AFAEL Â MATERION IECHYD AC ANNOG POBL I FABWYSIADU FFYRDD IACH O FYW



Pam fod hyn yn bwysig?

Dengys ystadegau cenedlaethol fod rhannau o’r fwrdeistref sirol ymhlith y lleiaf iach yng Nghymru. Mae dros hanner ein poblogaeth dros eu pwysau neu’n ordew, gyda llai na thraean o’r oedolion yn gorfforol egniol ar bum diwrnod yr wythnos neu fwy, a thua’r un gyfran o oedolion yn dweud eu bod yn yfed mwy na’r lefelau argymelledig o leiaf unwaith yr wythnos.

Ysmygu yw achos unigol mwyaf afiechyd a marwolaeth y gellir eu hatal ac mae Llywodraeth Cymru wedi ei adnabod fel prif achos anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru. Mae bron i chwarter y bobl yn y fwrdeistref sirol yn ysmegu: mae bron i 50% yn fwy’n ysmegu yn y gogledd nag yn y de. Gall problemau iechyd, anawsterau ariannol a chamddefnyddio sylweddau gael effaith negyddol ar iechyd meddwl a lles emosiynol person.

Trwy ein gwaith mewn partneriaeth gyda HALO Leisure Ltd rydym wedi datblygu cyfleusterau hamdden wedi’u moderneiddio yn y fwrdeistref sirol, gan gynnwys gwaith gwerth miliynau lawer o bunnoedd i adnewyddu Canolfan Hamdden Pen-y-bont i annog ein dinasyddion i fod yn fwy egniol.

Byddwn yn parhau i gymryd camau i fynd i’r afael â’r problemau iechyd hyn trwy weithio gyda’n dinasyddion i’w helpu hwy i helpu eu hunain i wella’u lles corfforol a meddyliol trwy addysg a dewisiadau bywyd iach.

Sut ydym wedi gwneud hyd yma?

Ar y cyd â phartneriaid, rydym eisoes wedi cyfrannu at y flaenoriaeth hon fel a ganlyn:

- sefydlu rhaglenni gwella iechyd wedi'u targedu i annog pobl i roi'r gorau i ysmegu, eu hannog i beidio â chamddefnyddio alcohol, i golli pwysau ac i ddatblygu arferion iachach o ran bwyta a gwneud ymarfer corff;
- dosbarthu cymorth ariannol trwy raglen y Gist Gymunedol i glybiau a sefydliadau lleol i ddatblygu mwy o gyfleoedd i bobl gyfranogi mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol;
- ymrwymo i bartneriaeth am 15 mlynedd gyda HALO Leisure Ltd. i redeg ein canolfannau hamdden a'n pyllau nofio, gyda'r nod cyffredinol o gynyddu nifer yr ymweliadau â'r cyfleusterau hyn ac annog pobl i fyw'n iach;
- cyflawni cyfranogiad uwch mewn gweithgareddau corfforol yn ein hysgolion o fewn a'r tu allan i oriau ysgol arferol trwy'r fenter 'Ysgolion Egnïol';
- datblygu nifer o fentrau i wella cymorth a gwasanaethau ar gyfer pobl ag afiechyd meddwl;
- gwella'r cyfleusterau yng Nghanolfan Hamdden Pen-y-bont, Canolfan Chwaraeon Bracla, Canolfan Fywyd y Pîl a Chanolfan Hamdden Cwm Garw i annog pobl i wneud mwy o ddefnydd o'n cyfleusterau hamdden a llyfrgell;
- dathlu ein mabolgampwyr Olympaidd a Pharalympaidd, o'r gorffennol a'r presennol, trwy'r arddangosfa 'Dilyn y Fflam'; a
- sefydlu rhaglenni yn ein gwasanaethau Celfyddydau a Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o athletwyr.

Beth ydym yn dymuno'i gyflawni erbyn 31 Mawrth 2017?

Rydym yn dymuno gweld poblogaeth iachach.

Byddwn yn:

- canolbwyntio ar wella deilliannau byw'n iach ar draws pob ystod oedran trwy ddylunio rhaglenni priodol i ddiwallu anghenion, gan dargedu'n arbennig yr ardaloedd a'r poblogaethau lleiaf iach yn y fwrdeistref sirol;
- sicrhau bod negeseuon ynghylch bwyta'n iach yn ymwreiddio mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, megis ysgolion, sefydliadau ieuencid, gwasanaethau hamdden a grwpiau cymunedol;
- sicrhau ymateb cydgysylltiedig gan fynd i'r afael â materion sy'n flaenoriaeth megis gordewdra ymhlith plant, camddefnyddio alcohol a sylweddau, a lles meddyliol;
- gweithio tuag at ostwng cyfraddau ysmegu ac yfed alcohol, yn enwedig ymhlith pobl ifanc;

- datblygu gwasanaethau a chyfleoedd sy'n annog ac yn hybu gweithgarwch corfforol gydol oes, gan weithio mewn partneriaeth gyda HALO Leisure Ltd/GLL ac ystod o bartneriaid cymunedol; a
- hyrwyddo gweithgareddau cost-isel a hygyrch megis cerdded a beicio a darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau grŵp/cymdeithasol.

Sut allwch chi chwarae rhan?

Gallwch chi helpu trwy wneud y canlynol:

- cymryd cyfrifoldeb am eich iechyd a'ch lles eich hun;
- cymryd camau i wneud mwy o ymarfer corff trwy fynychu eich cyfleuster hamdden lleol neu ymuno â chlwb neu grŵp lleol;
- ymrwymo i roi'r gorau i ysmegu, yfed llai o alcohol a bwyta'n iachach; a hefyd
- gofyn i'ch meddyg teulu am fynediad at y cynllun cenedlaethol i atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff neu lyfrau ar bresgripsiwn.

Sut fyddwn ni'n gwybod a ydym yn llwyddo ar y cyd?

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo pan fydd y canlynol yn wir:

- Pan fydd dangosyddion iechyd ar gyfer dinasyddion yn y fwrdeistref sirol yn gwella, gan gynnwys:
 - pan fydd y ganran o'r boblogaeth sy'n ysmegu'n gostwng;
 - pan fydd y ganran o'r boblogaeth sydd dros eu pwysau neu'n ordew yn gostwng;
 - pan fydd y ganran o'r oedolion sy'n cael pwl o oryfed ar o leiaf un diwrnod bob wythnos yn gostwng;
 - pan fydd y ganran o'r oedolion sy'n cyflawni'r lefelau argymelledig o weithgarwch corfforol yn cynyddu; a hefyd
 - pan fydd y bwlch o ran Disgwyliad Oes Iach rhwng cymunedau mwyaf a lleiaf amddifadus y fwrdeistref sirol yn mynd yn llai.

Ein hymrwymiaidau ar gyfer 2014-15

Rydym am annog mwy o bobl ledled y fwrdeistref sirol i fyw'n iach a gweld mwy o gyfranogi mewn gweithgarwch corfforol ar draws pob grŵp yn y boblogaeth.

Gan weithio gyda phartneriaid ym maes iechyd y cyhoedd a phartneriaid eraill, byddwn yn:

- datblygu ymhellach brosiectau wedi'u targedu i annog pobl i fod yn iachach gyda ffocws arbennig ar Gwm Llynfi a gostwng cyfraddau ysmegu;
- gweithredu cyfres o raglenni blynyddoedd cynnar i annog aelwydydd i fod yn fwy corfforol egnïol;
- cwblhau'r gwaith o ailddatblygu Canolfan Hamdden Pen-y-bont a'i hail-lansio fel Canolfan Fywyd Pen-y-bont erbyn mis Gorffennaf 2014;
- cyflawni'r Rhaglen Bwyd Doeth a'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff mewn partneriaeth gyda HALO Leisure Ltd i helpu i fynd i'r afael â lefelau gordewdra ac annog pobl i reoli eu pwysau'n well ledled y fwrdeistref sirol;
- dileu neu leihau'r rhwystrau i fod yn gorfforol egnïol ar gyfer grwpiau nas cynrychiolir ddigon trwy gyflawni'r amcanion o ran chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn y Cynllun Cydraddoldebau Strategol;
- rhoi cymorth i weithredu'r Bil Teithio Llesol trwy ddatblygu mentrau cerdded a beicio;
- datblygu gwasanaethau cymorth ataliol effeithiol a fydd yn gwella lles pobl ac yn cyfrannu at ffordd iachach o fyw; a
- diogelu a hybu iechyd, diogelwch a lles ein cyflogeion.

BLAENORIAETH GWELLA CHWECH – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I WNEUD Y DEFNYDD GORAU O’N HADNODDAU



Pam fod hyn yn bwysig?

Mae ein sefyllfa ariannol anodd yn her ddigynsail i ni. Ers 2011-12, mae'r cyllid refeniw yr ydym yn ei dderbyn gan y Llywodraeth genedlaethol wedi cael ei ostwng 9.3% mewn termau real. Ar yr un pryd, bu gostyngiad mewn incwm o ffioedd, taliadau, buddsoddiadau ac am fod gwerth tir yn is, o ganlyniad i'r economi wan, ac mae'n edrych yn debygol y bydd hyn yn parhau dros y tair blynedd nesaf.

Rydym yn amcangyfrif, er mwyn cyflawni ein hagenda wella uchelgeisiol o fewn yr adnoddau sydd ar gael, bod angen i ni ddod o hyd i arbedion refeniw parhaus o £36 miliwn dros y pedair blynedd nesaf. Rydym yn dymuno lleihau i'r eithaf effaith y cyllid is ar y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu ar gyfer ein dinasyddion. Felly rydym yn ymrwymedig i ddod o hyd i o leiaf hanner y £36 miliwn trwy weithio'n fwy effeithlon o fewn y Cyngor a chyda'n partneriaid, i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau ffisegol, dynol, ariannol a thechnolegol.

Er mwyn gwneud i'n hadnoddau fynd ymhellach, gan sicrhau hefyd ein bod yn gallu creu dyfodol cynaliadwy i'r fwrdeistref sirol, rydym yn cydnabod bod angen i ni newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau a bod yn fwy arloesol a hyblyg o ran y modd yr ydym yn darparu gwasanaethau. Byddwn yn gwneud hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys cyflawni ystod o brosiectau cydweithredol, ail-drafod telerau contractau ac archwilio'r posibilrwydd o drosglwyddo gwasanaethau i sefydliadau partner.

Sut ydym wedi gwneud hyd yma?

Rydym wedi cyflawni arbedion refeniw parhaus o £18 miliwn dros y pedair blynedd ddiwethaf trwy, er enghraifft, ostwng costau rheoli a gweinyddu, ail-drafod telerau contractau gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth. Bob blwyddyn mae'n mynd yn anos gwneud arbedion effeithlonrwydd newydd, ond byddwn yn parhau i ymagnïo i wella'r ffordd yr ydym yn gweithio fel ein bod yn cael y gwerth gorau am arian o'n holl weithgareddau.

Rydym eisoes wedi cyfrannu at y flaenoriaeth hon fel a ganlyn:

- cyflawni'r arbedion arfaethedig a nodwyd yng nghyllideb 2013-14;
- sefydlu Rhaglen Newid Pen-y-bont ar Ogwr;
- adolygu ein hasedau a'n ffioedd, taliadau ac adnabod cyfleoedd i gynyddu ein hincwm;
- cyflawni'r camau gweithredu i'r Cyngor a nodir yn y Cynllun Partneriaethau Integredig Sengl 'Sir Pen-y-bont ar Ogwr Ynghyd';
- ehangu ein defnydd o gyfryngau cymdeithasol;
- datblygu strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu â dinasyddion;
- gostwng ein costau ynni a'r allyriadau carbon deuocsid o'n hystâd;
- gweithredu ein strategaeth gwasanaethau cwsmeriaid;
- sefydlu cydwasanaeth diogelu'r cyhoedd gyda chynghorau eraill; ac
- adolygu arferion caffael a datblygu cyfleoedd i gydweithio gyda chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus.

Beth ydym yn dymuno'i gyflawni erbyn 31 Mawrth 2017?

Rydym am i bobl yn y fwrdeistref fod yn hyderus bod y Cyngor yn deg, yn uchelgeisiol, yn canolbwyntio ar gwsmeriaid ac yn effeithlon.

Byddwn yn:

- gweithredu Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ac yn cyflawni'r arbedion sy'n ofynnol;
- gweithredu Rhaglen Newid Pen-y-bont ar Ogwr;
- archwilio ffyrdd arloesol a hyblyg o gyflenwi gwasanaethau, gan symud o gaffael ad hoc i gomisiynu dan reolaeth;
- gwneud gwell defnydd o'n swyddfeydd ac asedau eraill (megis unedau diwydiannol);

- datblygu swyddogaeth gryfach o ran datblygu sefydliadol, er mwyn cynyddu cymwyseddau staff ymhellach a chaniatáu mwy o hyblygrwydd;
- gwella'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu â dinasyddion a deall profiadau cwsmeriaid i'w gwneud yn haws iddynt gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor; ac
- ail-bennu ffocws ein gwaith gyda'n partneriaid i gyflawni ein blaenoriaethau cyffredin ar gyfer y fwrdeistref sirol.

Sut allwch chi chwarae rhan?

Gallwch chi helpu trwy wneud y canlynol:

- dweud wrthym a ydych yn teimlo'n hyderus bod y Cyngor yn deg, yn uchelgeisiol, yn canolbwyntio ar gwsmeriaid ac yn effeithlon;
- rhoi gwybod i ni pa wasanaethau yw'r rhai pwysicaf i chi a'ch cymuned, a ble y gellid lleihau'r galw am wasanaethau;
- rhannu gyda ni'r pethau yr ydym yn eu gwneud yn iawn yn eich tyb chi, er mwyn i ni allu lledaenu arfer da. Os oes gennych bryderon, dywedwch wrthym beth ydynt, er mwyn i ni allu ystyried sut y gallwn wneud yn well;
- ein hysbysu ynghylch eich profiadau o gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor, er mwyn i ni wybod a ydym yn llwyddo i'w gwneud yn haws i'n dinasyddion ac er mwyn i ni allu gweithredu os nad ydym; a
- dweud wrthym os ydych chi wedi profi arferion yr ydych chi'n eu hystyried yn wastraffus, er mwyn i ni allu archwilio'r hyn yr ydym yn ei wneud a phenderfynu a ellir gwneud gwelliannau.

Sut fyddwn ni'n gwybod a ydym yn llwyddo?

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo pan fydd y canlynol yn wir:

- pan fydd arbedion arfaethedig yn cael eu cyflawni;
- pan fyddwn cael y defnydd a'r gwerth mwyaf posib o'r swyddfeydd sydd ar gael i ni;
- pan fydd ein gwariant cyfredol ar systemau TGCh yn is;
- pan fydd ein strategaethau adnoddau'n amlwg o gymorth i gyflawni'r blaenoriaethau gwella corfforaethol; a hefyd
- pan fyddwn yn derbyn adborth cadarnhaol oddi wrth ddinasyddion ynghylch cyfathrebu, ymgysylltu, mynediad at wasanaethau a gwerth am arian.

Ein hymrwymiaidau ar gyfer 2014-15

Mae angen i ni gyflawni arbedion o £11.3 miliwn yn 2014-15 a pharatoi ar gyfer arbedion pellach mewn blynyddoedd yn y dyfodol gan fynd ati ar yr un pryd i ysgogi gwelliannau mewn meysydd sy'n flaenoriaeth.

Byddwn yn:

- parhau i ddatblygu ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gan alinio ein hadnoddau â'n blaenoriaethau gwella;
- cyflawni'r prosiectau 'Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau' yn Rhaglen Newid Pen-y-bont ar Ogwr' am y flwyddyn sydd i ddod;
- parhau i resymoli a gwella systemau a phrosesau'r Cyngor;
- cyflawni'r cynigion ar gyfer arbedion a nodir yng nghyllideb 2014-15;
- cwblhau ein hadolygiad caffael a chomisiynu;
- rhannu arfer gorau a chymryd camau gweithredu, lle y bo angen, i ostwng lefelau absenoldeb;
- cyflawni'r camau gweithredu yng Nghynllun Rheoli Asedau (AMP) 2014-15, gan gynnwys mesurau sy'n ymwneud â gostwng ynni ac allyriadau carbon;
- gweithio tuag at gytundeb tir cydweithredol ar gyfer Parc Afon Ewenni (Tre-dŵr);
- cyflawni'r rhaglen gwell gwarediadau;
- adolygu'r gwaith gyda'n partneriaid, gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r trydydd sector;
- datblygu fframwaith cymhwysedd rheoli a chynllun datblygu sefydliadol; a hefyd
- datblygu ymhellach feganweithiau i wella adborth gan gwsmeriaid.

Atodiad 1: Dangosyddion Llwyddiant

(Sylwer mai targedau **dros dro** yw'r rhai ar gyfer 2014-15. Gellir gwneud newidiadau yng ngoleuni'r data diwedd blwyddyn ar gyfer 2013-14. Sylwer fod rhai dangosyddion cenedlaethol yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd ar gyfer eu defnyddio yn 2014-15. Fe all fod angen gwneud newidiadau i rai dangosyddion sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr hon yn dilyn yr adolygiad).

BLAENORIAETH UN – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I DDATBLYGU’R ECONOMI LEOL				
Dangosydd	Gwirioneddol yn 2011-12	Gwirioneddol yn 2012-13	Targed yn 2013-14	Targed yn 2014-15
Y ganran o'r boblogaeth o oedran gweithio sydd mewn cyflogaeth	71.7% (Arolwg o'r Llafurlu, ONS)	68.9% (Arolwg o'r Llafurlu, ONS)	cynnydd	cynnydd
Y ganran o'r bobl ifanc 16-24 oed sydd mewn cyflogaeth	55.8% (Arolwg o'r Llafurlu, ONS)	47.1% (Arolwg o'r Llafurlu, ONS)	cynnydd	cynnydd
Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) y pen	£14,099 (2010, ONS)	£14,489 (2011, ONS)	cynnydd	cynnydd
Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario (GDHI) y pen	£13,648 (2010, ONS)	£14,007 (2011, ONS)	cynnydd	cynnydd
Y ganran o'r holl blant dan 16 sy'n byw mewn aelwydydd o oedran gweithio heb unrhyw un mewn cyflogaeth	17.6% (2010, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth)	20.4% (2011, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth)	gostyngiad	gostyngiad
Y ganran o'r plant sy'n byw mewn aelwydydd sydd islaw 60% o'r incwm canolrifol	23.1% (Diweddariad 2009, Yr Uned Tlodi Plant)	22.7% (2011, Yr Uned Tlodi Plant)	gostyngiad	gostyngiad
Y ganran o'r: prif ffyrdd (A) ffyrdd heblaw prif ffyrdd (B) a ffyrdd heblaw prif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan	(A) 7.1% (B) 9% (C) 13%	(A) 5.7% (B) 7.7% (C) 11.8%	(A) 6.96% (B) 9.88% (C) 12.81%	(A) 6.96% (B) 9.88% (C) 12.82%
Nifer y bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith	4.4% (Mawrth 2012, NOMIS)	4.0% (Mawrth 2013, NOMIS)	gostyngiad	gostyngiad

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cynllun Corfforaethol 2013-2017: Adolygwyd 2014-15

Nifer yr ymwelwyr â chanolau trefi (nifer yr ymwelwyr blynyddol ym Mhen-y-bont a Phorthcawl)	Pen-y-bont 5,197,383 Porthcawl 2,650,733 (2011, arolwg lleol)	Pen-y-bont 5,030,292 Porthcawl 2,700,000 (2012, arolwg lleol)	Pen-y-bont 5,000,000 Porthcawl 2,700,000	Pen-y-bont 5,000,000 Porthcawl 2,700,000
Cyfanswm y gwariant blynyddol gan dwristiaid	£268.8m (2011, CBS Pen-y-bont ar Ogwr)	£282.8m (2012, CBS Pen-y-bont ar Ogwr)	cynnydd	cynnydd o 2% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol
Nifer y safleoedd gwag yng nghanolau trefi	Pen-y-bont 67 Maesteg 11 Porthcawl 24 (2011, Archwiliad lechyd Canolau Trefi)	Pen-y-bont 66 Maesteg 17 Porthcawl 12 (2012, Archwiliad lechyd Canolau Trefi)	gostyngiad	gostyngiad (cynnal ar gyfer Porthcawl)
Nifer y busnesau sydd wedi cofrestru ar gyfer TAW/TWE	4,075	4,000	cynnydd	cynnydd

BLAENORIAETH DAU – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I GODI UCHELGEISIAU A CHYNYDDU CYFLAWNIAD ADDYSGOL				
Dangosydd	Gwirioneddol yn 2011-12	Gwirioneddol yn 2012-13	Targed yn 2013-14	Targed yn 2014-15
Y ganran o’r disgyblion 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU â gradd A*-C mewn Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg	44.6%*	50.7%*	55%*	60%*
Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd	93.3%*	93.7%*	94.6%*	94.6%*
Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd	91.3%*	92.1%*	92%*	93%*
Y ganran o’r holl ddisgyblion (gan gynnwys y rheiny yng ngofal yr awdurdod lleol) yn unrhyw ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a hwythau’n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, sy’n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy	0.58%*	0.33%*	0.5%*	0.45%*
Y ganran o’r disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy’n cyflawni’r Dangosydd Pynciau Craidd, yn ôl yr Asesiad Athro	77.1%*	80.6%*	83%*	84.4%*
Y ganran o’r disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy’n cyflawni’r Dangosydd Pynciau Craidd, yn ôl yr Asesiadau Athrawon	67%*	67.1%*	74.9%*	78.5%*
Y Dangosydd Pynciau Craidd yng Nghyfnod Allweddol 4: Y ganran o’r disgyblion sy’n cyflawni’r trothwy Lefel 2 ym mhob pwnc o blith Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4	44.8%*	49.9%*	52.5%*	55.3%*
Dangosydd deilliannau’r Cyfnod Sylfaen: Y ganran o’r disgyblion, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, sy’n cyflawni o leiaf Ddeiliant 5 (y deiliant disgwylidig) mewn asesiadau athrawon	Amh.	81.8%*	78.3%*	82.1%*
Maint y bwch mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng disgyblion 15+ sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a’r rhai heb hawl i brydau ysgol am ddim (wedi’i fesur yn ôl dangosydd cynhwysol Lefel 2)	28%*	31.1%*	24%*	24%*
Ymadawyr Blwyddyn 11 ar gyfer Ysgolion yn yr Awdurdod y gyddys nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	4.4% (2011, Gyrfa Cymru)	6.4% (2012, Gyrfa Cymru)	4%	4%

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
 Cynllun Corfforaethol 2013-2017: Adolygwyd 2014-15

Nifer yr ymweliadau â Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn, am bob 1,000 o bobl	4,243	3,820	4,600	4,200
Y ganran o'r plant dan 5 sy'n aelodau o'r gwasanaeth llyfrgelloedd	newydd	26%	11%	27.5%
* Mae'r ffigurau hyn yn ymwneud â'r flwyddyn ysgol flaenorol				

BLAENORIAETH TRI – GWEITHIO GYDA PHLANT A THEULUOEDD I FYND I'R AFAEL Â PHROBLEMAU'N GYNNAR				
Dangosydd	Gwirioneddol yn 2011-12	Gwirioneddol yn 2012-13	Targed yn 2013-14	Targed yn 2014-15
Nifer y teuluoedd sy'n elwa o gymorth dwys i deuluoedd a ddarperir gan Cysylltu Teuluoedd (CF) a'r Gwasanaethau Cymorth Dwys i Deuluoedd (IFSS) sy'n mabwysiadu dull 'tîm o amgylch y teulu'	71	133	140	160
Nifer y plant mewn angen	915 (ar 31/3/12)	918 (ar 31/3/13)	gostyngiad	915
Nifer y plant sydd wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	132 (ar 31/3/12)	161 (ar 31/3/13)	gostyngiad	150
Plant sy'n derbyn gofal fel canran o'r plant 0-17 oed	1.1% (ar 31/03/12)	1.34% (ar 31/3/13)	1.1%	1.1%
Sgôr pwyntiau cyfartalog mewn cymwysterau allanol ar gyfer Plant 16 oed sy'n Derbyn Gofal mewn unrhyw leoliad dysgu a gynhelir gan yr awdurdod lleol	193.75*	273*	300*	300*
Y ganran o'r holl ddisgyblion yng ngofal yr awdurdod lleol mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy	5.88%*	6.25%*	5%*	5%*
Y ganran o'r bobl ifanc a oedd yn arfer derbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy a hwythau'n 19 oed	100%	100%	100%	80%
Y ganran o'r bobl ifanc a oedd yn arfer derbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, y gwyddys eu bod mewn llety difrys addas a hwythau'n 19 oed	94.12%	93.3%	100%	100%
Y ganran o'r plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn	7.83%	10.6%	9%	9%
Y ganran o'r bobl ifanc a oedd yn arfer derbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, y gwyddys eu bod mewn addysg, cyflogaeth, hyfforddiant neu gyflogaeth a hwythau'n 19 oed	29.41%	73.3%	60%	85%
Nifer y plant sy'n elwa o'r rhaglen Dechrau'n Deg	752	950	1,190	1,421

BLAENORIAETH PEDWAR – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I HELPŪ POBL AGORED I NIWED I BARHAU I FOD YN ANNIBYNNOL				
Dangosydd	Gwirioneddol yn 2011-12	Gwirioneddol yn 2012-13	Targed yn 2013-14	Targed yn 2014-15
Y gyfradd o ran: a) y bobl hŷn (65 oed neu drosodd) a oedd yn cael cymorth yn y gymuned am bob 1,000 o bobl 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth	85.88	86.1	>85	>85
Y gyfradd o ran: b) y bobl hŷn (65 oed neu drosodd) yr oedd yr awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal am bob 1,000 o bobl 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth	20.45	19.86	<20	<19
Cyfradd yr oedi cyn trosglwyddo gofal am resymau a oedd yn ymwneud â gofal cymdeithasol am bob 1,000 o bobl 75 oed neu drosodd	2.78	1.96	<2.75	<2.75
Y ganran o’r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd lle mae’r risg wedi cael ei reoli	86.6%	87.36%	87%	88%
Y ganran o’r cleientiaid Teleofal a ddywedodd fod y gwasanaeth yn ei gwneud yn haws iddynt ymdopi yn eu cartref eu hunain	93%	94%	95%	95%
Nifer y rhai sy’n derbyn gwasanaeth gan y Tîm Adnoddau Cymunedol (gwasanaethau canolradd) y darparwyd dewis arall ar eu cyfer yn hytrach na lleoliad yn yr ysbyty	750	697	800	750
Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i gyflenwi Grant Cyfleusterau i’r Anabl	251 diwrnod	201 diwrnod	253 diwrnod	253 diwrnod
Cost gyfartalog am bob cleient ar gyfer gofal cartref	£5,823 (‘measuring up’ 2010-11)	£5,841 (‘measuring up’ 2011-12)	gostyngiad	gostyngiad
Cost uned lleoliadau gofal preswyl ar gyfer oedolion 65+ oed	£23,348 (‘measuring up’ 2010-11)	£24,500 (‘measuring up’ 2011-12)	gostyngiad	gostyngiad
Nifer y gofalywyr sy’n dweud bod gwybodaeth a chymorth i ofalwyr yn gwella yn y Fwrdeistref Sirol	mesur newydd	mesur newydd	Arolwg wedi’i ddatblygu / sefydlu yn 13-14	sefydlu man sylfaen
Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu hawliadau newydd am fudd-dal tai (HB) a gostyngiadau’r dreth gyngor (CTR)	19.22 diwrnod	23.48 diwrnod	19 diwrnod	17 diwrnod
Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu newidiadau mewn budd-dal tai (HB) a gostyngiadau’r dreth gyngor (CTR)	7.91 diwrnod	13.34 diwrnod	11 diwrnod	10 diwrnod

BLAENORIAETH PEDWAR – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I HELPU POBL AGORED I NIWED I BARHAU I FOD YN ANNIBYNNOL				
Dangosydd	Gwirioneddol yn 2011-12	Gwirioneddol yn 2012-13	Targed yn 2013-14	Targed yn 2014-15
Nifer y bobl a ryddhawyd o’r ysbyty sydd, yn dilyn gwasanaeth galluogi yn y tymor byr, heb angen am unrhyw wasanaeth gofal personol	mesur newydd	mesur newydd	mesur newydd	sefydlu man sylfaen

BLAENORIAETH PUMP – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I FYND I’R AFAEL Â MATERION IECHYD AC ANNOG POBL I FABWYSIADU FFYRDD IACH O FYW				
Dangosydd	Gwirioneddol yn 2011-12	Gwirioneddol yn 2012-13	Targed yn 2013-14	Targed yn 2014-15
Y ganran o’r boblogaeth (16 oed a throsodd) sy’n ysmegu	23% (Arolwg lechyd Cymru 2010)	23% (Arolwg lechyd Cymru 2011)	Gostyngiad (20% erbyn 2016)	Gostyngiad (20% erbyn 2016)
Y ganran o’r oedolion sydd dros eu pwysau neu’n ordew	59% (Arolwg lechyd Cymru 2010)	59% (Arolwg lechyd Cymru 2011)	gostyngiad	gostyngiad
Y ganran o’r oedolion sy’n dweud iddynt fod yn gorfforol egnïol ar bum niwrnod neu fwy yn yr wythnos ddiwethaf	30% (Arolwg lechyd Cymru 2010)	30% (Arolwg lechyd Cymru 2011)	cynnydd	cynnydd
Y ganran o’r oedolion a ddywedodd iddynt gael pwl o oryfed ar o leiaf un diwrnod yn yr wythnos ddiwethaf	30% (Arolwg lechyd Cymru 2010-11)	29% (Arolwg lechyd Cymru 2011-12)	gostyngiad	gostyngiad
Amrywiad (mewn blynyddoedd) mewn disgwyliad oes iach ar draws ein wardiau Dynion Menywod	Dynion: 19.4 Menywod: 20.8 (2009 mesur anghydraddoldebau, Y GIG)	Dim diweddariad ar ddata 2009 ar gael	gostyngiad	gostyngiad
Y ganran o’r oedolion a ddywedodd eu bod yn cael eu trin am unrhyw salwch meddwl	14% (Arolwg lechyd Cymru 2010)	13% (Arolwg lechyd Cymru 2011)	gostyngiad	gostyngiad
Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn am bob 1,000 o bobl lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol	9,520	8,914	9,200	8,011
Nifer yr atgyfeiriadau at y rhaglen Bwyd Doeth	mesur newydd	mesur newydd	mesur newydd	50
Y ganran o’r atgyfeiriadau at y rhaglen Bwyd Doeth sy’n cwblhau’r cwrs	mesur newydd	mesur newydd	mesur newydd	sefydlu man sylfaen
Y ganran o’r sefydliadau bwyd sy’n cydymffurfio fwy neu lai â safonau hylendid bwyd	77.08%	83.56%	80%	80%
Nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd am bob cyflogai cyfwerth ag amser llawn o ganlyniad i anaf diwydiannol	mesur newydd	mesur newydd	mesur newydd	sefydlu man sylfaen

BLAENORIAETH CHWECH – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I WNEUD Y DEFNYDD GORAU O’N HADNODDAU				
Dangosydd	Gwirioneddol yn 2011-12	Gwirioneddol yn 2012-13	Targed yn 2013-14	Targed yn 2014-15
Gwerth yr arbedion arfaethedig a gyflawnwyd	£7,386,000	£3,968,000	£3,706,000	£13,300,000
Y ganran o’r dinasyddion a ddywedodd mewn arolygon fod y Cyngor yn dda neu’n dda iawn am ddweud wrthynt am y gwasanaethau y mae’n eu darparu a newyddion sy’n gysylltiedig â’r Cyngor	mesur newydd	49% (Canlyniadau Ionawr 2013)	40%	40%
Y ganran o’r dinasyddion a ddywedodd mewn arolygon fod eu gofynion unigol o ran mynediad yn cael eu hateb wrth gysylltu â’r Cyngor	41.8%	Cwestiwn heb gael ei ofyn	cynnydd	52%
Cyfanswm yr arbedion a gyflawnwyd trwy raglen y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol	mesur newydd	mesur newydd	mesur newydd	sefydlu man sylfaen
Gwerth y cynigion gostwng cyllidebau ar gyfer systemau TGCh a gyflawnwyd	mesur newydd	mesur newydd	£50,000 2014-15 £200,000 2016-17	£50,000 2014-15 £200,000 2016-17
Canran y newid mewn allyriadau carbon deuocsid yn y stoc adeiladau cyhoeddus annomestig	2.24% (2010-11)	Amh.	3% (yr isafswm a bennwyd gan Lywodraeth Cymru)	3% (yr isafswm a bennwyd gan Lywodraeth Cymru)
Nifer y diwrnodau/sifftiau gwaith wedi colli oherwydd salwch, fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn	9.43	10.15 diwrnod	8.5 diwrnod	gostyngiad
Y gymhareb cyflogeion i ddesgiau	mesur newydd	mesur newydd	mesur newydd	3:2

GEIRFA

Anghydraddoldebau iechyd	Gwahaniaethau mewn statws iechyd rhwng unigolion neu grwpiau, a gaiff eu mesur yn ôl, er enghraifft, disgwyliad oes, marwolaethau a salwch
Bae'r Gorllewin	Y rhanbarth sy'n cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Mae Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin yn gydweithrediad rhwng y tair sir a Bwrdd Iechyd PABM
Canolbwynt Cymunedol	Mae'r rhain wedi'u lleoli o gwmpas y fwrdeistref sirol ac yn cynnwys gweithwyr cymorth i deuluoedd, swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, swyddogion lles addysg ac ymwelwyr iechyd
Consortium Canolbarth y De	Menter gwella ysgolion ar y cyd rhwng awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg
Cyfnod Allweddol 1 (CA1)	Y blynyddoedd ysgol a adwaenir fel Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod Allweddol 2 (CA2)	Y blynyddoedd ysgol a adwaenir fel Blwyddyn 3, Blwyddyn 4, Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6
Cyfnod Allweddol 3 (CA3)	Y blynyddoedd ysgol a adwaenir fel Blwyddyn 7, Blwyddyn 8 a Blwyddyn 9
Cyfnod Allweddol 4 (CA4)	Y ddwy flynedd o addysg ysgol, sy'n cynnwys TGAU ac arholiadau eraill, a adwaenir fel Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11
Cysylltu Teuluoedd (CF)	Gwasanaeth amlasiantaeth sy'n amcanu at weithio'n fwy effeithiol gyda theuluoedd sydd â'r anawsterau mwyaf hirdymor a chymhleth, ac sy'n tynnu ar ystod eang o wasanaethau
Dangosydd Pynciau Craidd	Y ganran o'r disgyblion sy'n cyflawni'r lefel cyrhaeddiad ddisgwyliedig mewn Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn gwahanol gyfnodau addysgol
Dechrau'n Deg	Menter gan Lywodraeth Cymru i roi cymorth i deuluoedd â phlant dan 4 oed sy'n byw yn rhai o'r ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru. Mae'n rhoi darpariaeth ddwys gan ymwelwyr iechyd, gofal plant rhad-ac-am-ddim, rhaglenni datblygiad iaith cynnar a rhaglenni rhianta
Diogelu	Mae hyn yn cyfeirio at y dull o amddiffyn pobl rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso

Diwygio Lles	Cyflwynodd Deddf Diwygio Lles Llywodraeth y DU 2012 newidiadau sylweddol i'r gyfundrefn lles. Diddymodd y Budd-dal Treth Gyngor (CTB) a Grantiau Gofal Cymunedol a Benthyciadau Argyfwng ac fe gyflwynodd daliadau budd-dal lles newydd
Estyn	Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
GDHI	Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario, sef swm yr arian sydd ar gael i aelwydydd ei wario neu ei gynilo
Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)	Gall grantiau o'r fath helpu tuag at gostau addasu cartref fel bod y meddiannydd yn gallu parhau i fyw yno
GVA	Gwerth Ychwanegol Crynswth, mesur o faint yr economi yn seiliedig ar werth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir mewn ardal
Gwasanaethau Cymorth Dwys i Deuluoedd (IFSS)	Daeth y rhain yn weithredol yn 2013. Fe'u crëwyd i roi cymorth i deuluoedd ledled rhanbarth Bae'r Gorllewin
HALO Leisure Ltd a GLL	Mentrau cymdeithasol sy'n gweithredu nifer o ganolfannau hamdden ar ran cynghorau
Incwm canolrifol	Y lefel ganol o incwm mewn rhestr sy'n mynd o'r incwm isaf i'r incwm uchaf
Just@sk+	Gwasanaeth sy'n rhoi cyngor, cynhorthwy ymarferol, gwybodaeth a chymorth personol i bobl ifanc
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009	Deddf yng Nghymru sy'n arwain y gwaith o wella gwasanaethau a chynllunio strategol gan awdurdodau lleol
NEET	Rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
PABM	(Bwrdd Iechyd) Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Plant y gwyddys eu bod mewn perygl ac sydd â chynllun amddiffyn plant wedi'i sefydlu
Plant mewn angen	Plant sy'n annhebygol o gyrraedd lefel foddhaol o ran iechyd a datblygiad heb i wasanaethau gael eu darparu. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gofal am ddiogelu a hybu lles y plant hyn
Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC)	Fe'i defnyddir yn gyffredinol ar gyfer plant sy'n 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol, sy'n golygu eu bod mewn gofal neu wedi'u cartrefu mewn amgylchedd diogel y tu allan i gartref y teulu
Pobl Agored i Niwed	At ddibenion y Cynllun Corfforaethol, y diffiniad o bobl agored i niwed yw'r unigolion hynny sydd mewn perygl o golli eu hannibyniaeth os nad ydynt yn derbyn cyngor neu gymorth
(Gwariant) Refeniw	Mae hyn yn cynnwys yr holl wariant ar gostau rhedeg gwasanaethau o ddydd i ddydd, megis cyflogau staff, cynnal a chadw adeiladau, offer, cyflenwadau a gwasanaethau cyffredinol
Teleofal	System sy'n cysylltu synwryddion trwy uned larwm cymunedol a osodwyd yn y cartref â chanolfan fonitro ganolog
Teuluoedd yn Gyntaf	Rhaglen gan Lywodraeth Cymru sy'n pwysleisio atal ac ymyrryd yn gynnar ar gyfer teuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi, trwy ymatebion cydgysylltiedig
TGAU Trosolwg a Chraffu	Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd Mae'r pum pwyllgor sy'n cyflawni'r rôl hon yn sicrhau y ceir archwiliad priodol o'n gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar fywydau pobl yn y fwrdeistref sirol
Trydydd Sector	Y rhan o'r economi sy'n cynnwys sefydliadau anllywodraethol a dielw, megis elusennau, grwpiau cymunedol a mentrau cydweithredol